*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 187(2)(f), (g), (j) a (k) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.*

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2019 Rhif (Cy. )

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

# Rheoliadau Gwasanaethau Maethu (Darparwyr Gwasanaethau Maethu ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019

DRAFFT

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae adran 94A(**1**) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("Deddf 2014") yn darparu y caiff rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch arfer swyddogaethau gan awdurdodau lleol a roddir iddynt gan adran 81 (y ffyrdd y mae plant sy'n derbyn gofal i'w lletya a'u cynnal) neu gan reoliadau a wneir o dan adran 87 (rheoliadau ynghylch plant sy'n derbyn gofal) o'r Ddeddf honno. Caiff rheoliadau a wneir o dan adran 87 o Ddeddf 2014 wneud darpariaeth bellach ynghylch plant sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol, gan gynnwys rheoliadau ynghylch lleoliadau sy'n cael eu gwneud y tu allan i ardal awdurdod lleol (adran 90), rheoliadau ynghylch lleoli plant gyda rhieni maeth awdurdod lleol (adran 92) a rheoliadau sy'n darparu ar gyfer cymeradwyo rhieni maeth awdurdod lleol (adran 93).

Cyflwynodd Rhan 1 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ("Deddf 2016") system newydd o reoleiddio gwasanaethau gofal a chymorth yng Nghymru, gan ddisodli'r un a sefydlwyd o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000.

---

(**1**) Mae adran 94A a 94B wedi eu mewnosod yn Neddf 2014 gan adran 58 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.

Hefyd, cyflwynodd Deddf 2016 gysyniad newydd o “gwasanaethau rheoleiddiedig” sydd wedi ei ddiffinio yn adran 2 o’r Ddeddf honno. Rhaid i berson sy’n dymuno darparu gwasanaeth rheoleiddiedig wneud cais i gofrestru i Weinidogion Cymru (wrth arfer eu swyddogaethau rheoleiddiol) gan bennu’r gwasanaeth rheoleiddiedig y mae’r person yn dymuno ei ddarparu.

Mae adran 2(1)(e) o Ddeddf 2016 yn darparu bod gwasanaeth maethu yn wasanaeth rheoleiddiedig, sydd wedi ei ddiffinio yn Atodlen 1 i’r Ddeddf honno i olygu unrhyw wasanaeth a ddarperir yng Nghymru gan berson ac eithrio awdurdod lleol sy’n gwneud y naill neu’r llall o’r canlynol neu sy’n cynnwys y naill neu’r llall o’r canlynol, sef lleoli plant gyda rhieni maeth neu arfer swyddogaethau mewn cysylltiad â lleoliad o’r fath, ac y cyfeirir ato yn y Rheoliadau hyn fel “darparwr gwasanaethau maethu annibynnol”.

Mae adran 27 o Ddeddf 2016 yn darparu y caiff rheoliadau osod gofynion ar ddarparwr gwasanaethau maethu annibynnol mewn perthynas â gwasanaeth rheoleiddiedig. Mae adran 28 yn darparu ymhellach y caiff rheoliadau osod gofynion ar unigolion cyfrifol sydd wedi eu dynodi gan ddarparwr gwasanaethau maethu rheoleiddiedig.

Mae adran 30 o Ddeddf 2016 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau ynghylch darparwyr gwasanaethau maethu annibynnol sydd wedi eu datod, ac mae adran 31 yn caniatáu i reoliadau gael eu gwneud ynghylch darparwyr sydd wedi marw.

Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau er mwyn darparu ei bod yn drosedd i ddarparwr gwasanaethau maethu annibynnol (adran 45 o Ddeddf 2016) ac i unigolyn cyfrifol (adran 46) fethu â chydymffurfio â darpariaethau penodedig.

Mae’r Rheoliadau hyn yn gosod gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau maethu awdurdodau lleol ac ar ddarparwyr gwasanaethau maethu annibynnol, y cyfeirir atynt gyda’i gilydd fel “darparwyr gwasanaethau maethu”.

Mae Rhan 1 o’r Rheoliadau hyn yn cynnwys diffiniadau o dermau penodol sy’n cael eu defnyddio yn y Rheoliadau.

Mae Rhan 2 yn nodi’r gofynion cyffredinol sy’n gymwys i ddarparwyr gwasanaethau maethu annibynnol o ran y ffordd y darperir y gwasanaeth, gan gynnwys gofynion mewn perthynas â’r datganiad o ddiben, y trefniadau ar gyfer monitro a gwella, a gwneud hysbysiadau i Weinidogion Cymru ac i gyrff eraill. Mae Atodlen 1 yn nodi’r hysbysiadau penodol y mae’n ofynnol iddynt gael eu gwneud.

Mae Rhan 2 hefyd yn disgrifio amryw ofynion mewn perthynas â dynodiad unigolyn cyfrifol. O dan

adran 6 o Ddeddf 2016, rhaid i berson sy'n dymuno darparu gwasanaeth maethu annibynnol wneud cais i gofrestru i Weinidogion Cymru y mae person wedi ei ddynodi fel yr unigolyn cyfrifol ynddo.

Mae rheoliad 13 o Ran 2 yn gwneud darpariaeth i sicrhau cynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth. Mae rheoliad 14(1) yn darparu bod methiant gan ddarparwr gwasanaethau maethu annibynnol i gydymffurfio â gofynion darpariaethau penodedig yn y Rheoliadau hyn yn drosedd. Yn ogystal, pan fo darparwr gwasanaethau maethu annibynnol yn methu â chydymffurfio â gofynion penodol eraill, mae rheoliad 14(2) yn darparu bod hyn hefyd yn drosedd os yw'r methiant i gydymffurfio yn arwain at wneud plentyn yn agored i niwed y gellir ei osgoi neu'n agored i risg sylweddol o niwed o'r fath neu'n agored i golli arian neu eiddo o ganlyniad i ddwyn, camddefnyddio neu gamberchnogi.

Mae Rhan 3 yn nodi'r camau i'w cymryd gan gynrychiolwyr personol yr ymadawedig os bydd darparwr gwasanaethau maethu annibynnol sy'n unigolyn yn marw. Mae'n galluogi'r cynrychiolwyr personol i weithredu yn rhinwedd y darparwr ac yn addasu Deddf 2016 fel nad yw'n ofynnol, o dan yr amgylchiadau hyn, i'r cynrychiolwyr personol gofrestru fel darparwr, a gall un o'r cynrychiolwyr personol gael ei ddynodi fel yr unigolyn cyfrifol. Mae Rhan 3 hefyd yn pennu'r cyfrifoldebau ar y "person a benodir" os bydd y darparwr gwasanaethau maethu annibynnol yn mynd yn ansolfent.

Mae Rhan 4 yn nodi'r amgylchiadau pan gaiff Gweinidogion Cymru (yn lle darparwr gwasanaethau maethu annibynnol) ddynodi unigolyn i fod yn unigolyn cyfrifol.

Mae Rhan 5 o'r Rheoliadau hyn yn amlinellu'r gofynion cyffredinol sy'n gymwys i ddarparwyr gwasanaethau maethu awdurdodau lleol o ran y ffordd y darperir y gwasanaeth, gan gynnwys gofynion mewn perthynas â'r datganiad o ddiben a'r trefniadau ar gyfer monitro a gwella. Nid yw'r gofyniad i ddynodi unigolyn cyfrifol yn gymwys i ddarparwyr gwasanaethau maethu awdurdodau lleol, y mae'n ofynnol iddynt, yn lle hynny, benodi rheolwr i fod yn gyfrifol am reoli'r gwasanaeth.

Mae Rhan 6 o'r Rheoliadau hyn yn nodi'r gofynion cyffredinol y mae rhaid i ddarparwyr gwasanaethau maethu awdurdodau lleol a darparwyr gwasanaethau maethu annibynnol eu bodloni. Mae'r rhain yn cynnwys gofynion cyffredinol o ran y gofal a'r cymorth sydd i'w darparu yn ogystal â gofynion mwy manwl sy'n ymwneud â darparu gwybodaeth, diwallu anghenion iaith a chyfathrebu plentyn a thrin plant â pharch a sensitifrwydd. Mae Rhan 6 hefyd yn nodi'r gofyniad i gadw cofnodion mewn cysylltiad â

DRAFT

gwasanaethau maethu ac mae Atodlen 3 yn nodi'r cofnodion penodol y mae rhaid eu cadw.

Mae Rhan 7 yn cynnwys gofynion penodol mewn perthynas â sicrhau bod plant yn ddiogel ac wedi eu hamddiffyn rhag camdriniaeth, esgeulustod a thriniaeth amhriodol. Yn ogystal â'i gwneud yn ofynnol i bolisïau a gweithdrefnau fod yn eu lle mewn perthynas â diogelu ac mewn perthynas â'r defnydd priodol o reolaeth ac ataliaeth, mae'r rheoliadau yn y Rhan hon yn gosod gofynion penodol o ran y camau gweithredu sydd i'w cymryd os bydd honiad neu dystiolaeth o gamdriniaeth. Mae'r Bennod hon hefyd yn manylu ar bolisïau a gweithdrefnau eraill y mae rhaid iddynt fod yn eu lle, gan gynnwys y rheini mewn perthynas â chwynion a chwythu'r chwiban.

Mae Rhan 8 yn nodi gofynion ychwanegol i sicrhau bod plant yn cael mynediad i wasanaethau iechyd, gwasanaethau addysg a gwasanaethau eraill. Mae Rhan 9 yn sicrhau bod mangreoedd, cyfleusterau a chyfarpar sydd i'w defnyddio mewn perthynas â gwasanaethau maethu yn addas ac yn ddiogel.

Mae Rhan 10 yn amlinellu'r cymorth a'r cynhorthwy arall sydd i'w rhoi i rieni maeth.

Mae Rhan 11 yn cynnwys gofynion o ran staffio, sy'n cynnwys gofynion cyffredinol o ran defnyddio niferoedd digonol o staff a gofynion penodol o ran addasrwydd unigolion sy'n gweithio yn y gwasanaeth. Mae'r gofynion hyn yn gymwys nid yn unig i gyflogeion ond hefyd i wirfoddolwyr ac i bersonau eraill sy'n gweithio yn y gwasanaeth maethu, a fyddai'n cynnwys staff asiantaeth. Mae'r gofynion addasrwydd yn cynnwys gofyniad i wybodaeth benodol a dogfennau penodol fod ar gael mewn cysylltiad â phersonau sy'n gweithio mewn gwasanaethau maethu, fel y'u nodir yn Atodlen 4.

Ymhlith y gofynion eraill a gynhwysir yn Rhan 11 mae gofynion sy'n ymwneud â chefnogi a datblygu staff, darparu gwybodaeth i staff a gweithredu gweithdrefn ddisgyblu briodol. I sicrhau bod cyflogeion yn adrodd am achosion o gamdriniaeth i berson priodol, mae'r rheoliadau yn y Bennod hon yn ei gwneud yn ofynnol i weithdrefn ddisgyblu'r darparwr ddarparu y byddai methu ag adrodd ynddo'i hun yn sail dros achos disgyblu. Mae'r Bennod hon hefyd yn cynnwys cyfyngiadau ar bersonau na chaniateir iddynt gael eu cyflogi gan y darparwr gwasanaethau maethu mewn rolau allweddol penodedig.

Mae Rhan 12 yn nodi gofynion ar unigolion cyfrifol sy'n ymwneud â rheoli'r gwasanaeth yn effeithiol. Mae dyletswydd gyffredinol ar yr unigolyn cyfrifol i oruchwylio'r gwaith o reoli'r gwasanaeth (rheoliad 60) ac mae arno ddyletswyddau penodol i benodi person

addas i reoli'r gwasanaeth (rheoliadau 62 a 63). Rhaid i'r unigolyn cyfrifol hefyd roi trefniadau yn eu lle ar gyfer rheoli'r gwasanaeth pan fo'r rheolwr yn absennol (rheoliad 66).

Mae Rhan 12 hefyd yn cynnwys gofynion ar unigolion cyfrifol ar gyfer sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei oruchwylio'n effeithiol. Drwy osod y gofynion hyn ar yr unigolyn cyfrifol, mae'r rheoliadau yn y Rhan hon yn sicrhau bod person ar lefel briodol uchel yn y sefydliad yn atebol am ansawdd a chydymffurfedd y gwasanaeth. Hefyd, mae'n ofynnol i'r unigolyn cyfrifol wneud adroddiadau i'r darparwr gwasanaethau maethu annibynnol ar ddigonolrwydd adnoddau (rheoliad 67) ac ar faterion eraill (rheoliad 68). Rhaid i'r unigolyn cyfrifol wneud trefniadau ar gyfer ymgysylltu â phlant ac eraill fel y gall eu safbwyntiau ar ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir gael eu hystyried gan y darparwr (rheoliad 71).

Mae Rhan 12 hefyd yn nodi'r ddyletswydd ar yr unigolyn cyfrifol ar gyfer sicrhau cydymffurfedd â gofynion eraill, gan gynnwys gofynion o ran hysbysu am ddigwyddiadau a chwynion a chadw cofnodion. Mae gan yr unigolyn cyfrifol gyfrifoldebau hefyd mewn perthynas â monitro ac adolygu ansawdd y gwasanaeth, ac ar gyfer gwneud adroddiad i'r darparwr gwasanaethau maethu annibynnol (rheoliad 72). Rhaid i'r unigolyn cyfrifol hefyd sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau'r darparwr gwasanaethau maethu annibynnol yn cael eu cadw'n gyfredol (rheoliad 74).

Mae Rhan 13 yn disgrifio'r dyletswyddau y mae rhaid i'r rheolwr a gyflogir gan wasanaeth maethu'r awdurdod lleol eu cyflawni. Mae'r rhain yn cynnwys cyfrifoldebau sy'n ymwneud â goruchwylio digonolrwydd adnoddau, gwneud adroddiadau i ddarparwr gwasanaethau maethu'r awdurdod lleol, sicrhau bod systemau yn eu lle i gofnodi cwynion a sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau yn cael eu cadw'n gyfredol.

Mae Rhan 14 yn ymdrin â sefydlu paneli maethu a'u swyddogaethau. Mae'n gwneud darpariaeth ar gyfer sefydlu rhestr ganolog o bobl yr ystyrir eu bod yn addas i eistedd ar banel maethu, y caniateir i aelodau panel maethu gael eu dewis ohoni. Mae hefyd yn nodi swyddogaethau paneli maethu, yn benodol, i ystyried ceisiadau ar gyfer cymeradwyo rhieni maeth. Mae'n nodi'r gofynion ar gyfer asesu darpar rieni maeth, gan gynnwys yr wybodaeth sydd i'w chael a'r gwiriadau sydd i'w cynnal mewn perthynas â'r person hwnnw ac aelodau o'i aelwyd a'i deulu, a'r hawl sydd gan berson sy'n cael gwybod ei fod yn annhebygol o gael ei gymeradwyo i (a) cyflwyno sylwadau i'r darparwr gwasanaethau maethu neu (b) cael adolygiad o'i achos gan y panel adolygu annibynnol. Mae Rhan 14 hefyd

DRAFT

yn ei gwneud yn ofynnol i'r darparwr gwasanaethau maethu gynnal cofnodion achos mewn perthynas â phob rhiant maeth.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

DRAFFT

*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 187(2)(f), (g), (j) a (k) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru*

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2019 Rhif (Cy. )

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

## Rheoliadau Gwasanaethau Maethu (Darparwyr Gwasanaethau Maethu ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *** |
| *Yn dod i rym* | *X Ebrill 2019* |

CYNNWYS

RHAN 1
Cyffredinol


1. Enwi a chychwyn
2. Dehongli


RHAN 2
Gofynion cyffredinol ar gyfer darparwyr gwasanaethau maethu annibynnol


3. Gofynion mewn perthynas â darparu'r gwasanaeth maethu annibynnol
4. Gofynion mewn perthynas â'r datganiad o ddiben
5. Gofyniad i sicrhau addasrwydd y gwasanaeth
6. Addasrwydd parhaus y lleoliad
7. Gofynion mewn perthynas â monitro, adolygu a gwella
8. Hysbysiadau

9. Dyletswydd gonestrwydd
10. Cydymffurfio â chod ymarfer
11. Gofynion mewn perthynas â’r unigolyn cyfrifol
12. Gofynion mewn perthynas â’r unigolyn cyfrifol pan fo’r darparwr yn unigolyn
13. Gofynion mewn perthynas â chynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth maethu annibynnol
14. Methiant gan y darparwyr gwasanaethau maethu annibynnol i gydymffurfio â’r rheoliadau

RHAN 3

Darparwyr gwasanaethau maethu annibynnol sydd wedi marw neu sydd wedi eu datod

15. Marwolaeth darparwr gwasanaethau maethu annibynnol
16. Penodi datodwyr etc.

RHAN 4

Rheoliadau o dan adran 21(5) o Ddeddf 2016

17. Dynodiad unigolyn cyfrifol gan Weinidogion Cymru

RHAN 5

Gofynion cyffredinol ar gyfer darparwyr gwasanaethau maethu awdurdodau lleol

18. Gofynion mewn perthynas â darparu gwasanaeth maethu’r awdurdod lleol
19. Cynnwys y datganiad o ddiben
20. Gofynion mewn perthynas â’r datganiad o ddiben
21. Gofynion mewn perthynas â monitro a gwella
22. Gofynion mewn perthynas â rheolwr yr awdurdod lleol
23. Gofynion o ran addasrwydd ar gyfer penodi rheolwr
24. Gofynion mewn perthynas â’r rheolwr

RHAN 6

Gofynion cyffredinol ar ddarparwyr gwasanaethau maethu annibynnol a darparwyr gwasanaethau maethu awdurdodau lleol

25. Cydymffurfedd â’r cytundeb gofal maeth
26. Diogelu


DRAFT

27. Gwybodaeth am y gwasanaeth etc.
28. Gwybodaeth ar gyfer plant
29. Iaith a chyfathrebu
30. Parch a sensitifrwydd
31. Safonau gofal a chymorth i blant
32. Dyletswydd i hybu cyswllt
33. Gwrthdaro buddiannau
34. Cofnodion mewn cysylltiad â gwasanaethau maethu

RHAN 7

Polisïau, gweithdrefnau a safonau eraill – darparwyr gwasanaethau maethu annibynnol a darparwyr gwasanaethau maethu awdurdodau lleol

35. Gofyniad i ddarparu'r gwasanaeth yn unol â pholisïau a gweithdrefnau
36. Polisïau a gweithdrefnau diogelu
37. Polisïau ar fwlio a dianc
38. Polisïau ar ddefnyddio rheolaeth ac ataliaeth yn briodol
39. Gwaharddiad ar ddefnyddio cosb gorfforol
40. Amddifadu o ryddid
41. Polisi a gweithdrefn gwyno
42. Chwythu'r chwiban
43. Cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau gan rieni maeth

DRAFT

RHAN 8

Iechyd ac addysg – darparwyr gwasanaethau maethu annibynnol a darparwyr gwasanaethau maethu awdurdodau lleol

44. Iechyd plant sydd wedi eu lleoli gyda rhieni maeth
45. Addysg, cyflogaeth a gweithgareddau hamdden

RHAN 9

Mangreoedd, cyfleusterau a chyfarpar – darparwyr gwasanaethau maethu annibynnol a darparwyr gwasanaethau maethu awdurdodau lleol

46. Mangreoedd, cyfleusterau a chyfarpar – darparwyr gwasanaethau maethu
47. Digonolrwydd cyfleusterau
48. Mangreoedd, cyfleusterau a chyfarpar – rhieni maeth

RHAN 10

Cymorth iâr gyfer rhieni maeth – darparwyr gwasanaethau maethu annibynnol a darparwyr gwasanaethau maethu awdurdodau lleol


49. Cymorth, hyfforddiant a gwybodaeth iâr gyfer rhieni maeth
50. Goruchwylio
51. Perthnasoedd gwaith effeithiol
52. Cefnogi plant i reoli eu harian


RHAN 11

Staffio – darparwyr gwasanaethau maethu annibynnol a darparwyr gwasanaethau maethu awdurdodau lleol


53. Staffio – gofynion cyffredinol
54. Addasrwydd staff
55. Cyfyngiadau ar gyflogaeth
56. Cefnogi a datblygu staff
57. Gwybodaeth ar gyfer staff
58. Gweithdrefnau disgyblu


RHAN 12

Dyletswyddau unigolion cyfrifol


59. Cydymffurfio â rheoliadau
60. Goruchwylio’r gwaith o reoli’r gwasanaeth
61. Ymweliadau
62. Dyletswydd i benodi rheolwr
63. Gofynion o ran addasrwydd ar gyfer penodi rheolwr
64. Cyfyngiadau ar benodi rheolwr ar gyfer mwy nag un gwasanaeth
65. Dyletswydd i adrodd am benodiad rheolwr
66. Y trefniadau pan yw’r rheolwr yn absennol
67. Goruchwylio digonolrwydd adnoddau
68. Adroddiadau eraill i’r darparwr gwasanaethau maethu annibynnol
69. Dyletswydd i sicrhau bod systemau yn eu lle i gofnodi digwyddiadau a chwynion
70. Dyletswydd i sicrhau bod systemau yn eu lle ar gyfer cadw cofnodion
71. Ymgysylltu â phlant ac eraill
72. Adolygiad o ansawdd
73. Datganiad o gydymffurfedd â’r gofynion o ran safonau gofal a chymorth


DRAFT

74. Dyletswydd i sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau yn gyfredol
75. Cymorth ar gyfer codi pryderon
76. Dyletswydd gonestrwydd
77. Hysbysiadau
78. Methiant i gydymffurfio â’r rheoliadau

RHAN 13

Dyletswyddau rheolwyr gwasanaeth maethu awdurdodau lleol

79. Goruchwylio digonolrwydd adnoddau
80. Adroddiadau eraill i ddarparwr gwasanaethau maethu’r awdurdod lleol
81. Dyletswydd i sicrhau bod systemau yn eu lle i gofnodi cwynion
82. Dyletswydd i sicrhau bod systemau yn eu lle ar gyfer cadw cofnodion
83. Dyletswydd i sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau yn gyfredol
84. Ymgysylltu â phlant ac eraill
85. Adolygiad o ansawdd y gofal
86. Cymorth ar gyfer codi pryderon

RHAN 14

Sefydlu paneli maethu

87. Y rhestr ganolog
88. Paneli maethu
89. Swyddogaethau paneli maethu
90. Cyfarfodydd paneli maethu
91. Asesu darpar rieni maeth
92. Cymeradwyo rhieni maeth
93. Adolygu a therfynu cymeradwyaeth
94. Gwybodaeth sydd i’w hanfon i’r panel adolygu annibynnol
95. Cofnodion achos sy’n ymwneud â rhieni maeth ac eraill
96. Rhestr o rieni maeth
97. Cadw cofnodion a’u cyfrinachedd

ATODLEN 1 – Hysbysiadau gan y darparwr gwasanaethau maethu annibynnol

ATODLEN 2 – Gwybodaeth sydd i’w chynnwys mewn datganiad o ddiben gan ddarparwr gwasanaethau maethu awdurdod lleol

ATODLEN 3 – Y cofnodion sydd i’w cadw gan ddarparwyr gwasanaethau maethu

DRAFT

ATODLEN 4 – Gwybodaeth a dogfennau sydd i fod ar gael mewn cysylltiad â phersonau sy’n gweithio mewn gwasanaethau maethu

ATODLEN 5 – Hysbysiadau gan yr unigolyn cyfrifol

ATODLEN 6 – Gwybodaeth am ddarpar rieni maeth ac aelodau eraill o’u haelwyd a’u teulu

ATODLEN 7 – Troseddau a Bennir at Ddibenion Rheoliad 94

ATODLEN 8 – Materion a Rhwymedigaethau mewn Cytundebau Gofal Maeth

DRAFT

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 87, 92, 93, 94, 94A a 196(1) a (2) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014(**1**) a chan adran 21(5), 27, 28, 30, 31, 45, 46 a 187(1) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016(**2**) (“Deddf 2016”).

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â’r personau hynny y maent yn meddwl eu bod yn briodol, fel sy’n ofynnol gan adran 27(4)(a) ac 28(4) o Ddeddf 2016.

Gosodwyd drafft o’r Rheoliadau hyn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 187(2)(f), (g), (j) a (k) o Ddeddf 2016 ac fe’i cymeradwywyd ganddo drwy benderfyniad.

# RHAN 1

## Cyffredinol

**Enwi a chychwyn**

**1.**—(1) Enw’r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gwasanaethau Maethu (Darparwyr Gwasanaethau Maethu ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019.

(2) Daw’r Rheoliadau hyn i rym ar X Ebrill 2019.

(**1**) 2014 dccc 4.
(**2**) 2016 dccc 2.

**Dehongli**

**2.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "addasiadau rhesymol" ("*reasonable adjustments*") yw unrhyw addasiadau rhesymol a fyddai'n ofynnol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010(**1**);

ystyr "awdurdod ardal" ("*area authority*") yw'r awdurdod lleol neu'r awdurdod lleol yn Lloegr ar gyfer yr ardal y mae'r plentyn wedi ei leoli ynddi, neu i'w leoli ynddi, pan fo hyn yn wahanol i'r awdurdod lleoli;

ystyr "awdurdod lleol" ("*local authority*") yw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru;

ystyr "awdurdod lleol yn Lloegr" ("*local authority in England*") yw—

(a) cyngor sir yn Lloegr,

(b) cyngor dosbarth ar gyfer ardal yn Lloegr nad oes cyngor sir ar ei chyfer,

(c) cyngor bwrdeistref yn Llundain, neu

(d) Cyngor Cyffredin Dinas Llundain;

ystyr "awdurdod lleoli" ("*placing authority*"), mewn perthynas â phlentyn sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol neu awdurdod lleol yn Lloegr, yw'r awdurdod lleol hwnnw;

ystyr "Bwrdd Iechyd Lleol" ("*Local Health Board*") yw Bwrdd Iechyd Lleol a sefydlwyd o dan adran 11 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**2**);

ystyr "camdriniaeth" a "cam-drin" ("*abuse*") yw camdriniaeth gorfforol, rywiol, seicolegol, emosiynol neu ariannol, ac mae "camdriniaeth ariannol" ("*financial abuse*") yn cynnwys y canlynol—

(a) bod arian neu eiddo arall person yn cael ei ddwyn,

(b) bod person yn cael ei dwyllo,

(c) bod person yn cael ei roi o dan bwysau mewn perthynas ag arian neu eiddo arall, neu

(d) bod arian neu eiddo arall person yn cael ei gamddefnyddio;

ystyr "canlyniadau personol" ("*personal outcomes*") yw—

(a) y canlyniadau y mae'r plentyn yn dymuno eu cyflawni, neu

---

(**1**) 2010 p. 15.
(**2**) 2006 p. 42.



DRAFT

(b) y canlyniadau y mae unrhyw bersonau a chanddynt gyfrifoldeb rhiant yn dymuno eu cyflawni mewn perthynas â’r plentyn;

mae i “cyflogai” yr un ystyron ag “employee” yn adran 230 o Ddeddf Hawliau Cyflogaeth 1996(**1**);

ystyr “cynllun gofal a chymorth” (“*care and support plan*”) yw cynllun ar gyfer y plentyn a wneir o dan adran 83 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014;

ystyr “cytundeb gofal maeth” (“*foster care agreement*”) yw’r cytundeb ysgrifenedig sy’n cwmpasu’r materion a bennir yn Atodlen 8 yr ymrwymir iddo rhwng y darparwr gwasanaethau maethu a’r rhiant maeth;

ystyr “darparwr cofrestredig” (“*registered provider*”) yw person sydd wedi ei gofrestru o dan adran 7 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 i ddarparu gwasanaeth maethu rheoleiddiedig;

ystyr “darparwr gwasanaethau maethu” (“*fostering services provider*”) yw—

(a) darparwr gwasanaethau maethu awdurdod lleol,

(b) darparwr gwasanaethau maethu annibynnol;

ystyr “darparwr gwasanaethau maethu annibynnol” (“*independent fostering services provider*”) yw person sydd wedi ei gofrestru o dan adran 7 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 i ddarparu gwasanaeth maethu;

ystyr “darparwr gwasanaethau maethu awdurdod lleol” (“*local authority fostering services provider*”) yw’r awdurdod lleol sy’n darparu gwasanaethau maethu’r awdurdod lleol;

ystyr “datganiad o ddiben” (“*statement of purpose*”) yw—

(a) yn achos darparwr gwasanaethau maethu annibynnol, y ddogfen sy’n cynnwys yr wybodaeth y mae rhaid ei darparu yn unol â rheoliad 3(c) o Reoliadau Cofrestru 2017 ac Atodlen 2 iddynt ar gyfer y man y mae’r gwasanaeth yn cael ei ddarparu ohono(**2**), a

(b) yn achos darparwr gwasanaethau maethu awdurdod lleol, yr wybodaeth y mae rhaid ei darparu yn unol ag Atodlen 2 i’r Rheoliadau hyn ar gyfer y man y mae’r gwasanaeth yn cael ei ddarparu ohono;

(**1**) 1996 p. 18.

(**2**) Mae rheoliad 3(c) o Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) 2017 (O.S. 2017/1098 (Cy. 278)) yn ei gwneud yn ofynnol i berson sy’n dymuno darparu gwasanaeth maethu ddarparu datganiad o ddiben ar gyfer pob man y mae’r gwasanaeth i gael ei ddarparu ohono.

ystyr “Deddf 2014” (“*the 2014 Act*”) yw Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014;

ystyr “Deddf 2016” (“*the 2016 Act*”) yw Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016;

mae i “esgeulustod” (“*neglect*”) yr un ystyr ag yn adran 197(1) o Ddeddf 2014;

ystyr “gofal a chymorth” (“*care and support*”) yw—

(a) gofal;

(b) cymorth;

(c) gofal a chymorth(**1**);

ystyr “y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd” (“*the Disclosure and Barring Service*”) a’r “GDG” (“*DBS*”) yw’r corff a sefydlir gan adran 87(1) o Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012(**2**);

ystyr “gwasanaeth maethu” (“*fostering service*”) yw—

(a) gwasanaeth maethu awdurdod lleol,

(b) gwasanaeth maethu annibynnol;

ystyr “gwasanaeth maethu annibynnol” (“*independent fostering service*”) yw unrhyw wasanaeth a ddarperir yng Nghymru gan berson ac eithrio awdurdod lleol sy’n gwneud y naill neu’r llall o’r canlynol neu sy’n cynnwys y naill neu’r llall o’r canlynol, sef lleoli plant gyda rhieni maeth neu arfer swyddogaethau mewn cysylltiad â lleoliad o’r fath;

ystyr “gwasanaeth maethu awdurdod lleol” (“*local authority fostering service*”) yw unrhyw wasanaeth a ddarperir yng Nghymru gan awdurdod lleol sy’n gwneud y naill neu’r llall o’r canlynol neu sy’n cynnwys y naill neu’r llall o’r canlynol, sef lleoli plant gyda rhieni maeth neu arfer swyddogaethau mewn cysylltiad â lleoliad o’r fath;

ystyr “Gweinidogion Cymru” (“*Welsh Ministers*”) yw Gweinidogion Cymru wrth arfer eu swyddogaethau rheoleiddiol(**3**), oni fydd y cyd-destun yn mynnu fel arall;

mae i “gweithiwr” yr un ystyron â “worker” yn adran 230 o Ddeddf Hawliau Cyflogaeth 1996(**4**);

ystyr “gweithiwr cymdeithasol” (“*social worker*”) yw person sydd wedi ei gofrestru fel gweithiwr cymdeithasol yn y gofrestr a gynhelir gan Ofal

---

(**1**) Gweler adran 4 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (dccc 4).

(**2**) 2012 p. 9.

(**3**) Diffinnir “swyddogaethau rheoleiddiol” yn adran 3(1)(b) o Ddeddf 2016.

(**4**) 1996 p. 18.

DRAFT

Cymdeithasol Cymru o dan adran 80 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, yn Rhan 16 o'r gofrestr a gynhelir gan y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal o dan erthygl 5 o Orchymyn Proffesiynau Iechyd a Gwaith Cymdeithasol 2001(**1**) neu mewn cofrestr gyfatebol a gynhelir o dan gyfraith yr Alban neu Ogledd Iwerddon;

ystyr "lleoliad" ("*placement*") yw lleoli plentyn gyda rhiant maeth o dan adran 81(5), (6)(a) a (b) o Ddeddf 2014;

mae i "niwed" ("*harm*") yr un ystyr ag yn adran 197(1) o Ddeddf 2014;

ystyr "panel maethu" ("*fostering panel*") yw panel a sefydlir yn unol â rheoliad 88;

ystyr "plentyn" ("*child*") yw person sydd o dan 18 oed;

mae i "plentyn sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol" ("*child who is looked after by a local authority*") yr un ystyr ag yn adran 74 o Ddeddf 2014;

ystyr "Rheoliadau 2015" ("*the 2015 Regulations*") yw Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015(**2**);

ystyr "Rheoliadau Cofrestru 2017" ("*the 2017 Registration Regulations*") yw Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) 2017(**3**);

ystyr "rheolwr awdurdod lleol" ("*local authority manager*") yw'r person a benodir gan ddarparwr gwasanaethau maethu'r awdurdod lleol yn rheolwr o dan reoliad 22;

ystyr "rhestr ganolog" ("*central list*") yw rhestr a sefydlir yn unol â rheoliad 87;

mae "rhiant" ("*parent*"), mewn perthynas â phlentyn, yn cynnwys unrhyw berson a chanddo gyfrifoldeb rhiant dros y plentyn;

ystyr "rhiant maeth" ("*foster parent*") yw person sydd wedi cael ei gymeradwyo fel rhiant maeth—

(a) yn unol â'r Rheoliadau hyn, a

(b) ac eithrio yn rheoliadau 92 – 97, mae'n cynnwys person y mae plentyn wedi ei leoli gydag ef o dan reoliad 26 o Reoliadau 2015 (cymeradwyo dros dro berthynas, cyfaill neu berson arall sydd â chysylltiad â phlentyn) neu reoliad 28 o'r Rheoliadau hynny (cymeradwyo dros dro ddarpar fabwysiadydd penodol fel rhiant maeth);

(**1**) O.S. 2002/254.
(**2**) O.S. 2015/1818 (Cy. 261).
(**3**) O.S. 2017/1098 (Cy. 278).

DRAFT

mae “staff” (“*staff*”) yn cynnwys—

(a) personau a gyflogir gan y darparwr gwasanaethau maethu i weithio yn y gwasanaeth fel cyflogai neu weithiwr, a

(b) personau sydd wedi eu cymryd ymlaen gan y darparwr gwasanaethau maethu o dan gontract ar gyfer gwasanaethau,

ond nid yw’n cynnwys personau y caniateir iddynt weithio fel gwirfoddolwyr;

ystyr “triniaeth amhriodol” (“*improper treatment*”) yw gwahaniaethu neu ataliaeth anghyfreithlon, gan gynnwys amddifadu amhriodol o ryddid o dan delerau Deddf Galluedd Meddyliol 2005(**1**);

ystyr “unigolyn cyfrifol” (“*responsible individual*”) yw unigolyn a benodir gan ddarparwr gwasanaethau maethu annibynnol wrth wneud cais i gofrestru o dan adran 6 o Ddeddf 2016;

ystyr “ymarferydd cyffredinol” (“*general practitioner*”) yw ymarferydd meddygol cofrestredig(**2**) sydd—

(a) yn darparu gwasanaethau meddygol sylfaenol o dan Ran 4 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**3**), neu

(b) yn darparu gwasanaethau sy’n cyfateb i wasanaethau a ddarperir o dan Ran 4 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, ac eithrio yn unol â’r Ddeddf honno.

# RHAN 2

## Gofynion cyffredinol ar gyfer darparwyr gwasanaethau maethu annibynnol

### Gofynion mewn perthynas â darparu’r gwasanaeth maethu annibynnol

**3.** Rhaid i’r darparwr gwasanaethau maethu annibynnol sicrhau bod y gwasanaeth wedi ei ddarparu â gofal, cymhwysedd a sgìl digonol, gan roi sylw i’r datganiad o ddiben.

### Gofynion mewn perthynas â’r datganiad o ddiben

**4.—**(1) Rhaid i’r darparwr gwasanaethau maethu annibynnol ddarparu’r gwasanaeth yn unol â’r datganiad o ddiben.

(**1**) 2005 p. 9.

(**2**) Amnewidiwyd y diffiniad o “registered medical practitioner” yn Atodlen 1 i Ddeddf Dehongli 1978 (p. 30) gan O.S. 2002/3135, Atodlen 1, paragraff 10 ag iddo effaith o 16 Tachwedd 2009.

(**3**) 2006 p. 42.



DRAFT

(2) Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu annibynnol—

(a) cadw'r datganiad o ddiben o dan adolygiad, a

(b) pan fo'n briodol, ddiwygio'r datganiad o ddiben.

(3) Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu annibynnol hysbysu'r personau a restrir ym mharagraff (4) am unrhyw ddiwygiad sydd i'w wneud i'r datganiad o ddiben o leiaf 28 o ddiwrnodau cyn y mae i gymryd effaith.

(4) Y personau y mae rhaid iddynt gael eu hysbysu am unrhyw ddiwygiad i'r datganiad o ddiben yn unol â pharagraff (3) yw—

(a) Gweinidogion Cymru,

(b) unrhyw blentyn sydd wedi ei leoli gan y darparwr gwasanaethau maethu annibynnol, oni bai na fyddai'n briodol gwneud hynny o ystyried oedran y plentyn a'i ddealltwriaeth,

(c) rhieni unrhyw blentyn o'r fath,

(d) rhieni maeth a darpar rieni maeth,

(e) personau sy'n gweithio at ddibenion y gwasanaeth maethu annibynnol,

(f) yr awdurdod lleoli.

(5) Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu annibynnol ddarparu'r datganiad o ddiben cyfredol i unrhyw berson ar gais, oni bai nad yw'n briodol gwneud hynny neu y byddai gwneud hynny yn anghyson â llesiant plentyn.

**Gofyniad i sicrhau addasrwydd y gwasanaeth**

**5.—**(1) Ni chaiff y darparwr gwasanaethau maethu annibynnol gytuno i leoli plentyn oni bai bod y darparwr wedi penderfynu bod lleoliad addas a all ddiwallu anghenion y plentyn am ofal a chymorth a galluogi'r plentyn i gyflawni ei ganlyniadau personol.

(2) Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu annibynnol gael polisi a gweithdrefnau yn eu lle ar leoliadau a chychwyn y gwasanaeth.

(3) Rhaid i'r penderfyniad o dan baragraff (1) ystyried—

(a) cynllun gofal a chymorth y plentyn,

(b) unrhyw asesiadau iechyd neu unrhyw asesiadau perthnasol eraill,

(c) safbwyntiau, dymuniadau a theimladau'r plentyn,

(d) unrhyw risgiau i lesiant y plentyn,

(e) unrhyw risgiau i lesiant unrhyw blentyn arall y gall y lleoliad sydd i'w wneud effeithio arno,

DRAFT

(f) argyhoeddiad crefyddol, tarddiad hiliol, cefndir diwylliannol ac ieithyddol y plentyn, ynghyd â’i gyfeiriadedd rhywiol a’i hunaniaeth o ran rhywedd,

(g) unrhyw addasiadau rhesymol y gallai’r darparwr gwasanaethau maethu annibynnol eu gwneud i alluogi i anghenion gofal a chymorth y plentyn gael eu diwallu,

(h) polisi a gweithdrefnau’r darparwr gwasanaethau maethu annibynnol ar leoliadau a chychwyn y gwasanaeth.

(4) Wrth wneud y penderfyniad ym mharagraff (1), rhaid i’r darparwr gwasanaethau maethu annibynnol gynnwys—

(a) y plentyn,

(b) rhieni’r plentyn, oni bai bod hyn yn amhriodol neu’n anghyson â llesiant y plentyn,

(c) yr awdurdod lleoli.

DRAFT

**Addasrwydd parhaus y lleoliad**

**6.** Os nad yw’r lleoliad sydd wedi ei wneud gan y darparwr gwasanaethau maethu annibynnol, o ganlyniad i newid yn anghenion asesedig y plentyn, yn addas i ddiwallu anghenion y plentyn am ofal a chymorth mwyach, hyd yn oed ar ôl i unrhyw addasiadau rhesymol gael eu gwneud, rhaid i’r darparwr roi hysbysiad ysgrifenedig o hyn i’r awdurdod lleoli ar unwaith.

**Gofynion mewn perthynas â monitro a gwella**

**7.—**(1) Rhaid i’r darparwr gwasanaethau maethu annibynnol sicrhau bod trefniadau effeithiol yn eu lle ar gyfer monitro, adolygu a gwella ansawdd y gwasanaeth.

(2) Rhaid i’r trefniadau gynnwys trefniadau ar gyfer ceisio safbwyntiau—

(a) unrhyw blentyn sydd wedi ei leoli gan y darparwr gwasanaethau maethu annibynnol,

(b) rhieni unrhyw blentyn o’r fath, oni bai bod hyn yn amhriodol neu’n anghyson â llesiant y plentyn,

(c) rhieni maeth,

(d) personau sy’n gweithio at ddibenion y gwasanaeth maethu annibynnol,

(e) yr awdurdod lleoli, ac

(f) yn achos plentyn sydd wedi ei leoli gydag awdurdod ardal, yr awdurdod ardal hwnnw

ar ansawdd y gwasanaeth a sut y gellir gwella hyn.

(3) Wrth wneud unrhyw benderfyniadau ar gynlluniau ar gyfer gwella ansawdd y gwasanaeth, rhaid i ddarparwr gwasanaethau maethu annibynnol—

(a) ystyried safbwyntiau'r rheini yr ymgynghorir â hwy yn unol â pharagraff (2), a

(b) rhoi sylw i'r adroddiad a lunnir gan yr unigolyn cyfrifol yn unol â rheoliad 72(4) (adolygiad o ansawdd).

**Hysbysiadau**

**8.—**(1) Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu annibynnol hysbysu Gweinidogion Cymru am y digwyddiadau a bennir yn Rhan 1 o Atodlen 1.

(2) Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu annibynnol hysbysu'r awdurdod lleoli am y digwyddiadau a bennir yn Rhan 2 o Atodlen 1.

(3) Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu annibynnol hysbysu'r awdurdod ardal am y digwyddiadau a bennir yn Rhan 3 o Atodlen 1.

(4) Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu annibynnol hysbysu'r bwrdd iechyd lleol y mae'r plentyn wedi ei leoli yn ei ardal am y digwyddiadau a bennir yn Rhan 4 o Atodlen 1.

(5) Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu annibynnol hysbysu'r heddlu am y digwyddiadau a bennir yn Rhan 5 o Atodlen 3.

(6) Rhaid i'r hysbysiadau sy'n ofynnol gan baragraff (1) gynnwys manylion y digwyddiad.

(7) Oni nodir fel arall, rhaid i hysbysiadau gael eu gwneud yn ddi-oed ac yn ysgrifenedig.

(8) Rhaid i hysbysiadau gael eu gwneud yn y modd a'r ffurf sy'n ofynnol gan Weinidogion Cymru.

**Dyletswydd gonestrwydd**

**9.** Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu annibynnol weithredu mewn ffordd agored a thryloyw gydag—

(a) unrhyw blentyn sydd wedi ei leoli gan y darparwr gwasanaethau maethu annibynnol,

(b) rhieni unrhyw blentyn o'r fath,

(c) rhieni maeth a darpar rieni maeth,

(d) yr awdurdod lleoli,

(e) yn achos plentyn sydd wedi ei leoli gydag awdurdod ardal, yr awdurdod ardal hwnnw.

**Cydymffurfio â chod ymarfer**

**10.** Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu annibynnol lynu wrth y cod ymarfer ar y safonau ymddygiad ac ymarfer a ddisgwylir oddi wrth



DRAFT

bersonau sy’n cyflogi neu sy’n ceisio cyflogi gweithwyr gofal cymdeithasol, y mae’n ofynnol i Ofal Cymdeithasol Cymru ei gyhoeddi o dan adran 112(1)(b) o Ddeddf 2016.

**Gofynion mewn perthynas â’r unigolyn cyfrifol**

**11.—**(1) Nid yw’r rheoliad hwn yn gymwys i ddarparwr gwasanaethau maethu annibynnol sy’n unigolyn.

(2) Rhaid i ddarparwr gwasanaethau maethu annibynnol y mae’r rheoliad hwn yn gymwys iddo sicrhau bod y person sydd wedi ei ddynodi fel yr unigolyn cyfrifol(**1**)—

(a) yn cael cymorth i gyflawni ei ddyletswyddau’n effeithiol, a

(b) yn ymgymryd â hyfforddiant priodol.

(3) Rhaid i’r darparwr gwasanaethau maethu annibynnol sicrhau bod yr unigolyn cyfrifol yn cydymffurfio â’r gofynion a osodir gan Ran 12 (dyletswyddau unigolion cyfrifol) o’r Rheoliadau hyn.

(4) Os bydd gan y darparwr gwasanaethau maethu annibynnol reswm dros gredu nad yw’r unigolyn cyfrifol wedi cydymffurfio â gofyniad a osodir gan y rheoliadau yn Rhan 5, rhaid i’r darparwr—

(a) cymryd unrhyw gamau gweithredu sy’n angenrheidiol i sicrhau y cydymffurfir â’r gofyniad, a

(b) hysbysu Gweinidogion Cymru.

(5) Yn ystod unrhyw adeg pan nad yw’r unigolyn cyfrifol yn gallu cyflawni ei ddyletswyddau, rhaid i’r darparwr gwasanaethau maethu annibynnol sicrhau bod trefniadau yn eu lle ar gyfer—

(a) rheoli’r gwasanaeth yn effeithiol,

(b) goruchwylio’r gwasanaeth yn effeithiol, ac

(c) cydymffurfedd y gwasanaeth â gofynion y Rheoliadau hyn.

(6) Os nad yw’r unigolyn cyfrifol yn gallu cyflawni ei ddyletswyddau a hynny am gyfnod o fwy nag 28 o ddiwrnodau, rhaid i’r darparwr gwasanaethau maethu annibynnol—

(a) hysbysu Gweinidogion Cymru, a

(b) rhoi manylion llawn i Weinidogion Cymru am y trefniadau interim.

(**1**) Mae adran 6 o Ddeddf 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i berson sy’n dymuno darparu gwasanaeth rheoleiddiedig wneud cais ar gyfer cofrestru i Weinidogion Cymru sy’n dynodi unigolyn fel yr unigolyn cyfrifol.

DRAFT

### Gofynion mewn perthynas â’r unigolyn cyfrifol pan fo’r darparwr yn unigolyn

**12.—**(1) Mae’r rheoliad hwn yn gymwys pan fo darparwr gwasanaeth maethu annibynnol yn unigolyn.

(2) Os yw’r rheoliad hwn yn gymwys, rhaid i’r unigolyn ymgymryd â hyfforddiant priodol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau’n briodol fel yr unigolyn cyfrifol.

(3) Yn ystod unrhyw adeg pan yw’r unigolyn yn absennol, rhaid iddo sicrhau bod trefniadau yn eu lle ar gyfer—

(a) rheoli’r gwasanaeth yn effeithiol,

(b) goruchwylio’r gwasanaeth yn effeithiol,

(c) cydymffurfedd y gwasanaeth â gofynion y Rheoliadau hyn.

(4) Os nad yw’r unigolyn yn gallu cyflawni ei ddyletswyddau fel unigolyn cyfrifol a hynny am gyfnod o fwy nag 28 o ddiwrnodau, rhaid iddo—

(a) hysbysu Gweinidogion Cymru, a

(b) rhoi manylion llawn i Weinidogion Cymru am y trefniadau interim.

### Gofynion mewn perthynas â chynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth maethu annibynnol

**13.**—(1) Rhaid i’r darparwr gwasanaethau maethu annibynnol gymryd camau rhesymol i sicrhau bod y gwasanaeth yn gynaliadwy yn ariannol at ddiben cyflawni’r nodau a’r amcanion a nodir yn y datganiad o ddiben.

(2) Rhaid i’r darparwr gwasanaethau maethu annibynnol gynnal cyfrifon priodol a chyfredol ar gyfer y gwasanaeth.

(3) Rhaid i’r darparwr gwasanaethau maethu annibynnol ddarparu copïau o’r cyfrifon i Weinidogion Cymru o fewn 28 o ddiwrnodau i gael cais i wneud hynny.

(4) Caiff Gweinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i’r cyfrifon gael eu hardystio gan gyfrifydd.

### Methiant gan ddarparwr gwasanaethau maethu annibynnol i gydymffurfio â’r rheoliadau

**14.—**(1) Mae’n drosedd i ddarparwr gwasanaethau maethu annibynnol fethu â chydymffurfio â gofyniad unrhyw un neu ragor o’r darpariaethau a bennir ym mharagraff (2)(**1**).

(2) Y darpariaethau a bennir at ddibenion paragraff (1) yw darpariaethau rheoliadau—

DRAFT

(**1**) Am gosbau yn dilyn euogfarn am drosedd o dan y rheoliad hwn, gweler adran 51(1) o Ddeddf 2016.

(a) 4(3) (gofynion mewn perthynas â'r datganiad o ddiben),

(b) 4(4) (gofynion mewn perthynas â'r datganiad o ddiben),

(c) 8(1), (2), (3), (4), (5) (hysbysiadau),

(d) 8(6) (hysbysiadau),

(e) 13(3) (gofynion mewn perthynas â chynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth),

(f) 27(1) (gwybodaeth am y gwasanaeth),

(g) 27(2) (gwybodaeth am y gwasanaeth),

(h) 27(3) (gwybodaeth am y gwasanaeth),

(i) 34(1) (cofnodion mewn cysylltiad â gwasanaethau maethu),

(j) 34(2) (cofnodion mewn cysylltiad â gwasanaethau maethu),

(k) 35(1) (gofynion i ddarparu'r gwasanaeth yn unol â pholisïau a gweithdrefnau),

(l) 37(2) (polisïau ar fwlio a dianc),

(m) 54(1) (addasrwydd staff),

(n) 57(1) (gwybodaeth ar gyfer staff).

(3) Caiff Gweinidogion Cymru ddwyn achos yn erbyn person a fu unwaith, ond nad yw mwyach, wedi ei gofrestru'n ddarparwr gwasanaethau maethu annibynnol, mewn cysylltiad â methiant i gydymffurfio â rheoliad 35 (cofnodion mewn cysylltiad â gwasanaethau maethu) ar ôl iddo beidio â bod wedi ei gofrestru felly.

(4) Mae darparwr gwasanaethau maethu annibynnol yn cyflawni trosedd os yw'r darparwr yn methu â chydymffurfio â gofyniad unrhyw un neu ragor o'r darpariaethau a bennir ym mharagraff (5) a bod methiant o'r fath yn arwain at—

(a) niwed y gellir ei osgoi (pa un ai o natur gorfforol neu seicolegol) i blentyn,

(b) plentyn yn cael ei wneud yn agored i risg sylweddol o niwed o'r fath, neu

(c) yn achos dwyn, camddefnyddio neu gamberchnogi arian neu eiddo, unrhyw golled gan blentyn o'r arian neu'r eiddo o dan sylw.

(5) Y darpariaethau a bennir at ddibenion paragraff (4) yw darpariaethau rheoliadau—

(a) 3 (gofynion mewn perthynas â darparu'r gwasanaeth maethu annibynnol),

(b) 4(1) (gofynion mewn perthynas â'r datganiad o ddiben),

(c) 5(1) (gofyniad i sicrhau addasrwydd y gwasanaeth),

(d) 5(3) (gofyniad i sicrhau addasrwydd y gwasanaeth),

(e) 26 (diogelu),

(f) 31 (safonau gofal a chymorth i blant),

(g) 35(5) (gofynion i ddarparu'r gwasanaeth yn unol â pholisïau a gweithdrefnau),

(h) 44(2) (iechyd plant sydd wedi eu lleoli gyda rhieni maeth),

(i) 53 (staffio – gofynion cyffredinol).

# RHAN 3

## Darparwyr gwasanaethau maethu annibynnol sydd wedi marw neu sydd wedi eu datod

**Marwolaeth darparwr gwasanaethau maethu annibynnol**

**15.**—(1) Pan fo darparwr gwasanaethau maethu annibynnol sy'n unigolyn wedi marw, rhaid i gynrychiolwyr personol yr unigolyn—

(a) yn ddi-oed, roi hysbysiad ysgrifenedig o'r farwolaeth i Weinidogion Cymru, a

(b) o fewn 28 o ddiwrnodau i'r farwolaeth, hysbysu Gweinidogion Cymru am eu bwriadau ynglŷn â gweithrediad y gwasanaeth yn y dyfodol.

(2) Caiff cynrychiolwyr personol yr unigolyn weithredu yn rhinwedd y darparwr gwasanaethau maethu annibynnol am gyfnod nad yw'n hwy nag 28 o ddiwrnodau neu am unrhyw gyfnod hwy (nad yw'n hwy nag un flwyddyn) y mae Gweinidogion Cymru yn cytuno arno.

(3) Pan fo'r cynrychiolwyr personol yn gweithredu yn rhinwedd y darparwr gwasanaethau maethu annibynnol yn unol â pharagraff (2), mae Rhan 1 o Ddeddf 2016 yn gymwys gyda'r addasiadau a ganlyn—

(a) nid yw adran 5 (gofyniad i gofrestru) yn gymwys;

(b) mae adran 21(2) (unigolion cyfrifol) i'w darllen fel pe bai'r canlynol wedi ei fewnosod ar ôl paragraff (a)—

"(aa) pan fo cynrychiolwyr personol darparwr gwasanaethau maethu annibynnol sydd wedi marw yn gweithredu yn rhinwedd y darparwr gwasanaethau maethu, fod yn un o'r cynrychiolwyr personol;".

(4) Yn y rheoliad hwn, ystyr "y gwasanaeth" yw'r gwasanaeth maethu annibynnol yr oedd y darparwr

unigol sydd wedi marw wedi ei gofrestru i'w ddarparu ar adeg ei farwolaeth.

**Penodi datodwyr etc.**

**16.—**(1) Rhaid i berson a benodir—

(a) yn ddi-oed, roi hysbysiad ysgrifenedig i Weinidogion Cymru o'i benodiad a'r rhesymau dros ei benodi;

(b) o fewn 28 o ddiwrnodau i'w benodi, hysbysu Gweinidogion Cymru am ei fwriadau ynglŷn â gweithrediad y gwasanaeth maethu annibynnol yn y dyfodol.

(2) Yn y rheoliad hwn, mae i "person a benodir" yr un ystyr ag yn adran 30 o Ddeddf 2016.

# RHAN 4

## Rheoliadau o dan adran 21(5) o Ddeddf 2016

**Dynodiad unigolyn cyfrifol gan Weinidogion Cymru**

**17.** Caiff Gweinidogion Cymru (yn lle darparwr gwasanaethau maethu annibynnol) ddynodi unigolyn i fod yn unigolyn cyfrifol, er nad yw gofynion adran 21(2) o Ddeddf 2016 wedi eu bodloni mewn cysylltiad â'r unigolyn, o dan yr amgylchiadau a ganlyn—

(a) bod y darparwr gwasanaethau maethu annibynnol yn unigolyn sydd wedi marw ac mae cynrychiolwyr personol y darparwr wedi hysbysu Gweinidogion Cymru nad ydynt yn bwriadu gwneud cais o dan adran 11(1)(c) o Ddeddf 2016;

(b) bod y darparwr gwasanaethau maethu annibynnol yn unigolyn ac wedi hysbysu Gweinidogion Cymru—

(i) na all gydymffurfio â'i ddyletswyddau fel unigolyn cyfrifol mwyach, a

(ii) y rhesymau dros hyn;

(c) bod y darparwr gwasanaethau maethu annibynnol yn gorff corfforaethol neu'n bartneriaeth ac wedi hysbysu Gweinidogion Cymru—

(i) nad yw'r unigolyn sydd wedi ei ddynodi gan y darparwr gwasanaethau maethu annibynnol fel yr unigolyn cyfrifol yn gallu cydymffurfio â'i ddyletswyddau fel unigolyn cyfrifol mwyach,

(ii) y rhesymau dros hyn, a

(iii) nad oes unrhyw unigolyn arall sy'n gymwys i fod yn unigolyn cyfrifol ac

sy'n gallu cydymffurfio â dyletswyddau unigolyn cyfrifol.

# RHAN 5

## Gofynion cyffredinol ar gyfer darparwyr gwasanaethau maethu awdurdodau lleol

### Gofynion mewn perthynas â darparu gwasanaeth maethu'r awdurdod lleol

**18.** Rhaid i ddarparwr gwasanaethau maethu'r awdurdod lleol sicrhau bod y gwasanaeth wedi ei ddarparu â gofal, cymhwysedd a sgìl digonol, gan roi sylw i'r datganiad o ddiben.

### Cynnwys y datganiad o ddiben

**19.** Rhaid i ddarparwr gwasanaethau maethu'r awdurdod lleol lunio datganiad o ddiben sy'n cynnwys yr wybodaeth a restrir yn Atodlen 2.

### Gofynion mewn perthynas â'r datganiad o ddiben

**20.**—(1) Rhaid i ddarparwr gwasanaeth maethu'r awdurdod lleol ddarparu'r gwasanaeth yn unol â'r datganiad o ddiben.

(2) Rhaid i ddarparwr gwasanaethau maethu'r awdurdod lleol—

(a) cadw'r datganiad o ddiben o dan adolygiad, a

(b) pan fo'n briodol, ddiwygio'r datganiad o ddiben.

(3) Rhaid i ddarparwr gwasanaethau maethu'r awdurdod lleol hysbysu'r personau a restrir ym mharagraff (4) am unrhyw ddiwygiad sydd i'w wneud i'r datganiad o ddiben o leiaf 28 o ddiwrnodau cyn y mae i gymryd effaith.

(4) Y personau y mae rhaid iddynt gael eu hysbysu am unrhyw ddiwygiad i'r datganiad o ddiben yn unol â pharagraff (3) yw—

(a) Gweinidogion Cymru,

(b) unrhyw blentyn sydd wedi ei leoli gan ddarparwr gwasanaethau maethu'r awdurdod lleol, oni bai na fyddai'n briodol gwneud hynny o ystyried oedran y plentyn a'i ddealltwriaeth,

(c) rhieni unrhyw blentyn o'r fath,

(d) rhieni maeth neu ddarpar rieni maeth,

(e) personau sy'n gweithio at ddibenion gwasanaeth maethu'r awdurdod lleol.

(5) Rhaid i ddarparwr gwasanaethau maethu'r awdurdod lleol ddarparu'r datganiad o ddiben cyfredol i unrhyw berson ar gais, oni bai nad yw'n briodol

gwneud hynny neu y byddai gwneud hynny yn anghyson â llesiant plentyn.

### Gofynion mewn perthynas â monitro a gwella

**21.—**(1) Rhaid i darparwr gwasanaethau maethu'r awdurdod lleol sicrhau bod trefniadau effeithiol yn eu lle ar gyfer monitro, adolygu a gwella ansawdd y gwasanaeth.

(2) Rhaid i'r trefniadau hynny gynnwys trefniadau ar gyfer ceisio safbwyntiau—

(a) unrhyw blentyn sydd wedi ei leoli gan ddarparwr gwasanaethau maethu'r awdurdod lleol,

(b) rhieni unrhyw blentyn o'r fath, oni bai bod hyn yn amhriodol neu'n anghyson â llesiant y plentyn,

(c) rhieni maeth, a

(d) personau sy'n gweithio at ddibenion gwasanaeth maethu'r awdurdod lleol

ar ansawdd y gwasanaeth.

(3) Wrth wneud unrhyw benderfyniadau ar gynlluniau ar gyfer gwella ansawdd y gwasanaeth, rhaid i ddarparwr gwasanaethau maethu'r awdurdod lleol ystyried safbwyntiau'r personau hynny yr ymgynghorir â hwy yn unol â pharagraff (2).

### Gofynion mewn perthynas â rheolwr yr awdurdod lleol

**22.**—(1) Rhaid i bob darparwr gwasanaethau maethu awdurdod lleol benodi un o'i swyddogion i fod yn gyfrifol am reoli'r gwasanaeth.

(2) Rhaid i ddarparwr gwasanaethau maethu'r awdurdod lleol roi hysbysiad ysgrifenedig ar unwaith i Weinidogion Cymru—

(a) o enw'r person a benodir yn rheolwr,

(b) o'r dyddiad y mae'r penodiad i gymryd effaith,

(c) os bydd y person sydd wedi ei benodi'n rheolwr yn peidio â rheoli gwasanaeth maethu'r awdurdod lleol.

### Gofynion o ran addasrwydd ar gyfer penodi rheolwr

**23.**—(1) Ni chaiff darparwr gwasanaethau maethu'r awdurdod lleol benodi person i reoli'r gwasanaeth oni bai bod y person hwnnw yn addas i wneud hynny.

(2) At ddibenion paragraff (1), nid yw person yn addas i reoli'r gwasanaeth oni bai bod gofynion rheoliad 54(2) (addasrwydd staff) wedi eu bodloni mewn cysylltiad â'r person hwnnw.

**Gofynion mewn perthynas â’r rheolwr**

**24.**—(1) Rhaid i ddarparwr gwasanaethau maethu awdurdod lleol sicrhau bod y person sydd wedi ei benodi’n rheolwr—

(a) yn cael cymorth i gyflawni ei ddyletswyddau’n effeithiol, a

(b) yn ymgymryd â hyfforddiant priodol.

(2) Rhaid i ddarparwr gwasanaethau maethu’r awdurdod lleol sicrhau bod y rheolwr yn cydymffurfio â gofynion Rhan 13 (dyletswyddau i’w cyflawni gan reolwr gwasanaethau maethu’r awdurdod lleol) o’r Rheoliadau hyn.

(3) Os bydd gan ddarparwr gwasanaethau maethu’r awdurdod lleol reswm dros gredu nad yw’r rheolwr wedi cydymffurfio â gofyniad a osodir gan y rheoliadau yn Rhan 13, rhaid i’r darparwr gymryd unrhyw gamau gweithredu sy’n angenrheidiol i sicrhau y cydymffurfir â’r gofyniad.

(4) Rhaid i ddarparwr gwasanaethau maethu’r awdurdod lleol roi trefniadau addas yn eu lle i sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei reoli’n effeithiol ar unrhyw adeg pan nad oes rheolwr sydd wedi ei benodi neu pan yw’r rheolwr yn absennol o’r gwasanaeth.

DRAFT

# RHAN 6

## Gofynion cyffredinol ar ddarparwyr gwasanaethau maethu annibynnol a darparwyr gwasanaethau maethu awdurdodau lleol

### Cydymffurfedd â'r cytundeb gofal maeth

**25.** Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu fonitro cydymffurfedd y rhieni maeth â gofynion y cytundeb gofal maeth, fel y'i nodir yn Atodlen 8.

### Diogelu

**26.** Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu roi trefniadau yn eu lle i sicrhau bod plant sydd wedi eu lleoli ganddo yn ddiogel ac yn cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth, esgeulustod a thriniaeth amhriodol.

### Gwybodaeth am y gwasanaeth etc.

**27.—**(1) Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu lunio canllaw ysgrifenedig ar y gwasanaeth.

(2) Rhaid i'r canllaw—

(a) cael ei ddyddio, ei adolygu o leiaf bob blwyddyn a'i ddiweddaru fel y bo angen,

(b) bod mewn iaith, arddull, cyflwyniad a fformat sy'n briodol i blant o bob oedran ac oedolion,

(c) cael ei roi ar gael i—

(i) unrhyw blentyn sydd wedi ei leoli gan y darparwr,

(ii) unrhyw rieni maeth a darpar rieni maeth,

(iii) yr awdurdod lleoli, a

(iv) eraill ar gais, oni bai nad yw hyn yn briodol neu y byddai'n anghyson â llesiant unigolyn.

(3) Rhaid i'r canllaw gynnwys yr wybodaeth a ganlyn—

(a) gwybodaeth am sut i godi pryder neu wneud cwyn,

(b) gwybodaeth am argaeledd gwasanaethau eirioli annibynnol i blant sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol,

(c) gwybodaeth am rôl a manylion cyswllt Comisiynydd Plant Cymru.

(4) Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu sicrhau bod plant yn cael unrhyw gymorth sy'n angenrheidiol i'w galluogi i ddeall yr wybodaeth a gynhwysir yn y canllaw.

### Gwybodaeth ar gyfer plant

**28.—**(1) Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu roi trefniadau yn eu lle i sicrhau bod gan blant yr wybodaeth y mae ei hangen arnynt i wneud a chymryd rhan mewn penderfyniadau o ddydd i ddydd am y ffordd y darperir gofal a chymorth iddynt a sut y maent yn cael eu cefnogi i gyflawni eu canlyniadau personol.

(2) Rhaid i'r wybodaeth a ddarperir fod ar gael mewn iaith, arddull, cyflwyniad a fformat sy'n briodol i blant o bob oedran.

(3) Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu roi trefniadau yn eu lle i sicrhau bod plant yn cael unrhyw gymorth sy'n angenrheidiol i'w galluogi i ddeall yr wybodaeth a ddarperir.

### Iaith a chyfathrebu

**29.—**(1) Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu sicrhau bod anghenion iaith plant yn cael eu diwallu.

(2) Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu sicrhau y darperir mynediad i unrhyw gymhorthion a chyfarpar sy'n angenrheidiol i blant i hwyluso'r ffordd y mae'r plentyn yn cyfathrebu ag eraill.

### Parch a sensitifrwydd

**30.—**(1) Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu roi trefniadau yn eu lle i sicrhau bod plant sydd wedi eu lleoli gan y darparwr yn cael eu trin â pharch a sensitifrwydd.

(2) Mae hyn yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i—

(a) parchu preifatrwydd ac urddas y plentyn,

(b) parchu hawliau'r plentyn i gyfrinachedd,

(c) hybu ymreolaeth ac annibyniaeth y plentyn, a

(d) rhoi sylw i unrhyw nodweddion gwarchodedig perthnasol (fel y'u diffinnir yn adran 4 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010(**1**)) y plentyn.

### Safonau gofal a chymorth i blant

**31.** Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu sicrhau bod rhieni maeth yn rhoi gofal a chymorth i blentyn sydd wedi ei leoli gyda hwy—

(a) yn unol â chynllun gofal a chymorth y plentyn,

(b) mewn ffordd sy'n cynnal, yn amddiffyn ac yn hybu diogelwch a llesiant y plentyn, ac

(**1**) 2010 p. 15.

DRAFT

(c) mewn ffordd sy'n annog, yn cynorthwyo ac yn cynnal perthnasoedd personol a phroffesiynol da rhwng y plentyn a'r rhiant maeth.

### Dyletswydd i hybu cyswllt

**32.** Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu sicrhau bod rhieni maeth yn hybu cyswllt rhwng plentyn sydd wedi ei leoli gyda hwy a rhieni, perthnasau a ffrindiau'r plentyn, yn unol â chynllun gofal a chymorth y plentyn ac unrhyw orchymyn llys sy'n ymwneud â chyswllt.

### Gwrthdaro buddiannau

**33.** Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu gael trefniadau effeithiol yn eu lle i nodi, cofnodi a rheoli achosion o wrthdaro buddiannau.

### Cofnodion mewn cysylltiad â gwasanaethau maethu

**34.**—(1) Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu gynnal y cofnodion a bennir yn Atodlen 3 am 15 mlynedd.

(2) Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu—

(a) sicrhau bod y cofnodion a bennir yn Atodlen 3 yn gywir ac yn gyfredol,

(b) cadw pob cofnod yn ddiogel,

(c) gwneud trefniadau er mwyn i'r cofnodion barhau i gael eu cadw'n ddiogel os bydd y gwasanaeth yn cau,

(d) rhoi'r cofnodion ar gael i Weinidogion Cymru ar gais,

(e) yn achos darparwr gwasanaethau maethu annibynnol, sicrhau bod y cofnodion yn cael eu danfon i'r awdurdod lleoli pan fydd y gwasanaeth yn peidio â chael ei ddarparu mewn cysylltiad â'r plentyn y mae'r cofnodion yn ymwneud ag ef,

(f) sicrhau bod plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth—

(i) yn cael eu gwneud yn ymwybodol o'u hawliau i gael mynediad i'w cofnodion, a

(ii) yn cael mynediad i'w cofnodion fel y mae'r gyfraith yn ei ganiatáu.

## RHAN 7

## Polisïau, gweithdrefnau a safonau eraill – darparwyr gwasanaethau maethu annibynnol a

darparwyr gwasanaethau maethu awdurdodau lleol

**Gofyniad i ddarparu'r gwasanaeth yn unol â pholisïau a gweithdrefnau**

**35.—**(1) Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu sicrhau bod y polisïau a'r gweithdrefnau a ganlyn yn eu lle ar gyfer y gwasanaeth—

(a) lleoli a chychwyn y gwasanaeth (gweler rheoliad 5 (gofyniad i sicrhau addasrwydd y gwasanaeth)),

(b) polisïau a gweithdrefnau diogelu (gweler rheoliad 36),

(c) bwlio a dianc (gweler rheoliad 38),

(d) defnyddio rheolaeth neu ataliaeth yn briodol (gweler rheoliad 39),

(e) amddifadu o ryddid (gweler rheoliad 40),

(f) cwynion (gweler rheoliad 41),

(g) chwythu'r chwiban (gweler rheoliad 42),

(h) meddyginiaeth (gweler rheoliad 44 (iechyd plant sydd wedi eu lleoli gyda rhieni maeth)),

(i) cymorth iâr gyfer rhieni maeth o ran sut i helpu plant i reoli eu harian (gweler rheoliad 52),

(j) cefnogi a datblygu staff (gweler rheoliad 56),

(k) disgyblu staff (gweler rheoliad 58).

(2) Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu hefyd gael unrhyw bolisïau a gweithdrefnau eraill yn eu lle sy'n rhesymol angenrheidiol i gefnogi nodau ac amcanion y gwasanaeth a nodir yn y datganiad o ddiben.

(3) Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu sicrhau bod cynnwys y polisïau a'r gweithdrefnau y mae'n ofynnol iddynt fod yn eu lle yn rhinwedd paragraffau (1) a (2)—

(a) mewn iaith, arddull, cyflwyniad a fformat sy'n briodol i blant o bob oedran ac oedolion,

(b) yn briodol i anghenion plant y darperir gofal a chymorth ar eu cyfer,

(c) yn gyson â'r datganiad o ddiben, ac

(d) yn cael eu cadw'n gyfredol.

(4) Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu sicrhau bod cynnwys y polisïau a'r gweithdrefnau y mae'n ofynnol iddynt fod yn eu lle o dan baragraff (1)(a), (b), (c) ac (f) yn ystyried anghenion unrhyw blant eraill y gall y lleoliad sy'n cael ei wneud effeithio arnynt.

(5) Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn unol â'r polisïau a'r gweithdrefnau hynny.

DRAFT

**Polisïau a gweithdrefnau ar ddiogelu**

**36.—**(1) Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu gael polisïau a gweithdrefnau yn eu lle—

(a) ar gyfer atal camdriniaeth, esgeulustod a thriniaeth amhriodol, a

(b) ar gyfer ymateb i unrhyw honiad neu dystiolaeth o gamdriniaeth, esgeulustod neu driniaeth amhriodol.

(2) Yn y rheoliad hwn, cyfeirir at bolisïau a gweithdrefnau o'r fath fel polisïau a gweithdrefnau diogelu.

(3) Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu sicrhau bod ei bolisïau a'i weithdrefnau diogelu yn cael eu gweithredu'n effeithiol.

(4) Yn benodol, pan fo honiad neu dystiolaeth o gamdriniaeth, esgeulustod neu driniaeth amhriodol, rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu—

(a) gweithredu yn unol â'i bolisïau a'i weithdrefnau diogelu,

(b) cymryd camau gweithredu ar unwaith i sicrhau diogelwch pob plentyn y darperir gofal a chymorth ar ei gyfer,

(c) gwneud atgyfeiriadau priodol i asiantaethau eraill, a

(d) cadw cofnod o unrhyw dystiolaeth neu sylwedd unrhyw honiad, unrhyw gamau gweithredu a gymerir ac unrhyw atgyfeiriadau a wneir.

**Polisïau a gweithdrefnau ar fwlio a dianc**

**37.** Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu hefyd gael y polisïau a'r gweithdrefnau a ganlyn yn eu lle—

(a) polisi ar atal bwlio,

(b) gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â honiad o fwlio, ac

(c) y weithdrefn sydd i'w dilyn pan yw unrhyw blentyn sydd wedi ei leoli gyda rhieni maeth gan y darparwr yn absennol heb ganiatâd.

**Polisïau a gweithdrefnau ar ddefnyddio rheolaeth ac ataliaeth yn briodol**

**38.—**(1) Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu gael polisi a gweithdrefnau yn eu lle ar ddefnyddio rheolaeth neu ataliaeth.

(2) Rhaid i'r polisi a'r gweithdrefnau wahardd gofal a chymorth rhag cael eu darparu mewn ffordd sy'n cynnwys gweithredoedd y bwriedir iddynt reoli neu atal plentyn oni bai bod y gweithredoedd hynny—

DRAFT

(a) yn angenrheidiol i atal risg o niwed a berir i’r plentyn neu i bersonau eraill neu ddifrod difrifol tebygol i eiddo, a

(b) yn ymateb cymesur i risg o’r fath.

(3) Rhaid i’r polisi a’r gweithdrefnau ei gwneud yn ofynnol i riant maeth gael ei hyfforddi mewn unrhyw ddulliau rheoli neu atal sydd i’w defnyddio.

(4) Rhaid i’r polisi a’r gweithdrefnau ei gwneud yn ofynnol i gofnod gael ei wneud o fewn 24 awr i unrhyw ddigwyddiad pan ddefnyddir rheolaeth neu ataliaeth.

(5) Rhaid i’r darparwr gwasanaethau maethu sicrhau bod unrhyw reolaeth neu ataliaeth a ddefnyddir gan rieni maeth yn cael ei chyflawni yn unol â’r polisïau a’r gweithdrefnau hyn.

(6) At ddibenion y rheoliad hwn, mae person yn rheoli neu’n atal plentyn os yw’r person hwnnw—

(a) yn defnyddio, neu’n bygwth defnyddio, grym i sicrhau bod gweithred yn cael ei gwneud y mae’r plentyn yn ei gwrthsefyll, neu

(b) yn cyfyngu ar ryddid symud y plentyn, pa un a yw’r plentyn yn gwrthsefyll ai peidio, gan gynnwys drwy ddefnyddio dulliau corfforol, mecanyddol neu gemegol.

**Gwaharddiad ar ddefnyddio cosb gorfforol**

**39.** Rhaid i’r darparwr gwasanaethau maethu sicrhau nad yw rhieni maeth yn defnyddio unrhyw fath o gosb gorfforol ar unrhyw adeg yn erbyn unrhyw blentyn.

**Amddifadu o ryddid**

**40.** Ni chaniateir amddifadu unigolyn o’i ryddid at ddiben cael gofal a chymorth heb awdurdod cyfreithlon.

**Polisïau a gweithdrefnau ar chwynion**

**41.—**(1) Rhaid i’r darparwr gwasanaethau maethu gael polisi cwyno yn ei le a sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei weithredu yn unol â’r polisi hwnnw.

(2) Rhaid i’r darparwr gwasanaethau maethu sicrhau bod y personau a ganlyn yn ymwybodol o fodolaeth y polisi cwyno a chymryd pob cam rhesymol i roi copi o’r weithdrefn gwyno mewn fformat priodol neu mewn unrhyw fformat y gofynnir amdano i—

(a) unrhyw blentyn sydd wedi ei leoli gan y darparwr,

(b) rhieni unrhyw blentyn o’r fath,

(c) rhieni maeth a darpar rieni maeth, a

DRAFT

(d) yn achos darparwr gwasanaethau maethu annibynnol, awdurdod lleol unrhyw blentyn sydd wedi ei leoli ganddo.

(3) Rhaid i’r darparwr gwasanaethau maethu sicrhau bod y personau sy’n gweithio i’r gwasanaeth maethu yn cael eu hysbysu am y polisi cwyno, bod copi o’r polisi cwyno yn cael ei roi iddynt a’u bod yn cael eu hyfforddi’n briodol ynghylch gweithredu’r polisi cwyno.

(4) Rhaid i’r polisi cwyno gynnwys gweithdrefnau ar gyfer ystyried cwynion a wneir i’r darparwr gwasanaethau maethu gan neu ar ran plant sydd wedi eu lleoli gan y darparwr ynghylch—

(a) y darparwr,

(b) rhieni maeth, ac

(c) unrhyw fater arall y mae’r darparwr yn ystyried ei fod yn berthnasol.

(5) Rhaid i’r polisi cwyno gynnwys gweithdrefnau ar gyfer ystyried cwynion a wneir i’r darparwr gwasanaethau maethu gan rieni maeth ynghylch—

(a) y darparwr, a

(b) unrhyw fater arall y mae’r darparwr yn ystyried ei fod yn berthnasol.

(6) Rhaid i’r polisi cwyno gynnwys gweithdrefnau ar gyfer ystyried cwynion a wneir i’r darparwr gwasanaethau maethu gan rieni unrhyw blentyn sydd wedi ei leoli gan y darparwr ynghylch—

(a) y darparwr, a

(b) unrhyw fater arall y mae’r darparwr yn ystyried ei fod yn berthnasol.

(7) Rhaid i’r weithdrefn gwyno gynnwys—

(a) enw, cyfeiriad a rhif ffôn Gweinidogion Cymru, a

(b) gwybodaeth am y cynhorthwy sydd ar gael i achwynwyr, gan gynnwys cynhorthwy o ran sut i gael mynediad i wasanaethau eirioli.

(8) Rhaid i’r darparwr gwasanaethau maethu roi trefniadau effeithiol yn eu lle ar gyfer ymdrin â chwynion gan gynnwys trefniadau ar gyfer—

(a) nodi cwynion ac ymchwilio iddynt,

(b) sicrhau bod camau gweithredu priodol yn cael eu cymryd yn dilyn ymchwiliad, ac

(c) cadw cofnodion sy’n ymwneud â’r materion yn is-baragraffau (a) i (b).

(9) Rhaid i’r darparwr gwasanaethau maethu ddarparu crynodeb o gwynion, ymatebion ac unrhyw gamau gweithredu dilynol a gymerir i Weinidogion Cymru o fewn 28 o ddiwrnodau i gael cais i wneud hynny.

(10) Rhaid i’r darparwr gwasanaethau maethu—

DRAFT

(a) dadansoddi gwybodaeth sy'n ymwneud â chwynion a phryderon; a

(b) gan roi sylw i'r dadansoddiad hwnnw, nodi unrhyw feysydd i'w gwella.

**Chwythu'r chwiban**

**42.**—(1) Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu sicrhau bod pob person sy'n gweithio yn y gwasanaeth (gan gynnwys unrhyw berson y caniateir iddo weithio fel gwirfoddolwr), rhieni maeth (gan gynnwys darpar rieni maeth) a phlant sydd wedi eu lleoli gan y darparwr yn gallu codi pryderon am y gwasanaeth.

(2) Rhaid i'r trefniadau hyn gynnwys—

(a) cael polisi chwythu'r chwiban yn ei le a gweithredu yn unol â'r polisi hwnnw,

(b) sefydlu trefniadau i alluogi a chefnogi pobl sy'n gweithio yn y gwasanaeth i godi pryderon o'r fath,

(c) sefydlu trefniadau i alluogi a chefnogi rhieni maeth a darpar rieni maeth i godi pryderon o'r fath, a

(d) sefydlu trefniadau i alluogi a chefnogi plant sydd wedi eu lleoli gan y darparwr i godi pryderon o'r fath.

(3) Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu sicrhau bod y trefniadau sy'n ofynnol o dan y rheoliad hwn yn cael eu gweithredu'n effeithiol.

(4) Pan godir pryder, rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu sicrhau—

(a) yr ymchwilir i'r pryder,

(b) y cymerir camau priodol yn dilyn ymchwiliad, ac

(c) y cedwir cofnod sy'n ymwneud â'r materion yn is-baragraffau (a) i (b).

**Cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau gan rieni maeth**

**43.** Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu sicrhau bod rhieni maeth yn gyfarwydd â'r polisïau a'r gweithdrefnau a sefydlir yn unol â'r Rheoliadau hyn a'i bod yn ofynnol iddynt weithredu yn unol â hwy.

DRAFT

# RHAN 8

## Iechyd ac addysg – darparwyr gwasanaethau maethu annibynnol a darparwyr gwasanaethau maethu awdurdodau lleol

**Iechyd plant sydd wedi eu lleoli gyda rhieni maeth**

**44.—**(1) Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu sicrhau bod rhieni maeth yn hybu iechyd a datblygiad plant sydd wedi eu lleoli gyda hwy.

(2) Yn benodol, rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu sicrhau bod rhieni maeth—

(a) yn cofrestru pob plentyn ag ymarferydd cyffredinol,

(b) yn darparu i bob plentyn fynediad i unrhyw gyngor, triniaeth a gwasanaethau meddygol, deintyddol, nyrsio, seicolegol a seiciatrig y mae eu hangen ar y plentyn,

(c) yn darparu i bob plentyn unrhyw gymorth, cymhorthion a chyfarpar unigol y mae eu hangen ar y plentyn o ganlyniad i unrhyw anghenion iechyd neu anabledd penodol sydd ganddo, a

(d) yn darparu i bob plentyn ganllawiau, cymorth a chyngor ynghylch iechyd, gofal personol a materion hybu iechyd sy'n briodol i anghenion a dymuniadau'r plentyn.

(3) Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu gael polisi a gweithdrefnau yn eu lle mewn perthynas â rhoi meddyginiaethau gan rieni maeth.

**Addysg, cyflogaeth a gweithgareddau hamdden**

**45.—**(1) Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu sicrhau bod cyrhaeddiad addysgol plant sydd wedi eu lleoli gyda rhieni maeth yn cael ei hybu.

(2) Yn benodol, rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu—

(a) sefydlu gweithdrefn ar gyfer monitro cyrhaeddiad addysgol, cynnydd a phresenoldeb yn yr ysgol plant sydd wedi eu lleoli gyda rhieni maeth,

(b) mewn perthynas â phlant oedran ysgol sydd wedi eu lleoli gyda rhieni maeth, sicrhau bod rhieni maeth yn hybu presenoldeb rheolaidd y plant yn yr ysgol a'u cyfranogiad mewn gweithgareddau ysgol, ac

(c) darparu i rieni maeth unrhyw wybodaeth a chynhorthwy, gan gynnwys cyfarpar, sy'n angenrheidiol i ddiwallu anghenion addysgol plant sydd wedi eu lleoli gyda hwy.



DRAFT

(3) Rhaid i’r darparwr gwasanaethau maethu sicrhau bod rhieni maeth yn hybu diddordebau hamdden plant sydd wedi eu lleoli gyda hwy.

(4) Pan fo unrhyw blentyn sydd wedi ei leoli gyda rhieni maeth wedi cyrraedd yr oedran pan na fo’n ofynnol iddo gael addysg lawnamser orfodol mwyach, rhaid i’r darparwr gwasanaethau maethu gynorthwyo i wneud y trefniadau a wneir ar gyfer y plentyn mewn cysylltiad â’i addysg, ei hyfforddiant a’i gyflogaeth, a rhoi effaith i’r trefniadau hynny.

# RHAN 9

## Mangreoedd a chyfarpar – darparwyr gwasanaethau maethu annibynnol a darparwyr gwasanaethau maethu awdurdodau lleol

### Mangreoedd, cyfleusterau a chyfarpar - darparwyr gwasanaethau maethu

**46.** Rhaid i’r darparwr gwasanaethau maethu sicrhau bod y mangreoedd, y cyfleusterau a’r cyfarpar a ddefnyddir ar gyfer gweithredu’r gwasanaeth yn addas, gan roi sylw i’r datganiad o ddiben ar gyfer y gwasanaeth.

### Digonolrwydd mangreoedd

**47.** Rhaid i’r darparwr gwasanaethau maethu sicrhau bod gan y mangreoedd a ddefnyddir ar gyfer gweithredu’r gwasanaeth gyfleusterau digonol ar gyfer—

(a) goruchwylio staff, a

(b) storio cofnodion yn ddiogel.

### Mangreoedd, cyfleusterau a chyfarpar - rhieni maeth

**48.**—(1) Rhaid i’r darparwr gwasanaethau maethu rhoi trefniadau yn eu lle i sicrhau bod y mangreoedd, y cyfleusterau a’r cyfarpar a ddefnyddir gan rieni maeth ar gyfer darparu gofal a chymorth i blant—

(a) yn addas ac yn ddiogel i’r diben y bwriedir iddynt gael eu defnyddio ato,

(b) yn cael eu defnyddio mewn ffordd ddiogel,

(c) yn cael eu cynnal a’u cadw’n briodol, a

(d) yn cael eu cadw’n lân yn unol â safon sy’n briodol i’r diben y maent yn cael eu defnyddio ato.

(2) Rhaid i’r darparwr gwasanaethau maethu sicrhau bod rhieni maeth yn cael eu hyfforddi’n briodol ynghylch sut i weithredu unrhyw gyfarpar y maent yn

DRAFT

ei ddefnyddio wrth ddarparu gofal a chymorth i blentyn.

# RHAN 10

## Cymorth ar gyfer rhieni maeth – darparwyr gwasanaethau maethu annibynnol a darparwyr gwasanaethau maethu awdurdodau lleol

### Cymorth, hyfforddiant a gwybodaeth ar gyfer rhieni maeth

**49.—**(1) Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu sicrhau bod gan rieni maeth yr wybodaeth y mae ei hangen arnynt i ddarparu gofal a chymorth i blentyn sydd wedi ei leoli gyda hwy yn unol â chynllun gofal a chymorth y plentyn.

(2) Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu sicrhau bod rhieni maeth yn cael unrhyw hyfforddiant, cyngor a chymorth, gan gynnwys cymorth y tu allan i oriau swyddfa, y mae'n ymddangos eu bod yn angenrheidiol er budd plant sydd wedi eu lleoli gyda'r rhieni maeth ac i'w galluogi i ddarparu gofal a chymorth i'r plentyn yn unol â chynllun gofal a chymorth y plentyn.

(3) Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu sicrhau bod darpar rieni maeth yn cael unrhyw hyfforddiant, gwybodaeth a chyngor yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol.

(4) Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu fonitro ac adolygu'r wybodaeth, yr hyfforddiant, y cyngor a'r cymorth a ddarperir i rieni maeth a darpar rieni maeth a gwneud unrhyw welliannau sy'n angenrheidiol.

### Goruchwylio

**50.** Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu sicrhau bod rhieni maeth yn cael eu goruchwylio'n briodol.

### Perthnasoedd gwaith effeithiol

**51.** Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu—

(a) cynnal perthnasoedd proffesiynol da â rhieni maeth; a

(b) annog a chynorthwyo rhieni maeth i gynnal perthnasoedd personol da â phlant sydd wedi eu lleoli gyda hwy.

### Cefnogi plant i reoli eu harian

**52.—**(1) Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu gael polisi a gweithdrefnau yn eu lle i alluogi rhieni maeth i ddarparu cymorth a chynhorthwy i blant o ran sut i reoli eu harian.

(2) Rhaid i'r polisi a'r gweithdrefnau y mae'n ofynnol gan y rheoliad hwn iddynt fod yn eu lle nodi'r camau sydd i'w cymryd gan rieni maeth i alluogi a chefnogi plant i reoli eu harian eu hunain ac i amddiffyn plant rhag camdriniaeth ariannol.

(3) Pan fo'r rhieni maeth yn dal arian plentyn at unrhyw ddiben, rhaid i'r polisi a'r gweithdrefnau sy'n ofynnol gan y rheoliad hwn ddarparu bod yr arian yn cael ei ddal mewn cyfrif yn enw'r plentyn neu mewn cyfrif sy'n ei gwneud yn bosibl darnodi arian y plentyn yn glir.

# RHAN 11

## Staffio – darparwyr gwasanaethau maethu annibynnol a darparwyr gwasanaethau maethu awdurdodau lleol

### Staffio - gofynion cyffredinol

**53.** Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu sicrhau ar bob adeg fod nifer digonol o staff sydd â'r cymwysterau, yr hyfforddiant, y sgiliau, y cymhwysedd a'r profiad addas yn cael eu defnyddio i weithio yn y gwasanaeth, gan roi sylw—

(a) i'r datganiad o ddiben ar gyfer y gwasanaeth,

(b) i anghenion gofal a chymorth plant,

(c) i'r angen i gefnogi plant i gyflawni eu canlyniadau personol,

(d) i'r angen i ddiogelu a hybu iechyd a lles plant, ac

(e) i ofynion y Rheoliadau hyn.

### Addasrwydd staff

**54.—**(1) Ni chaiff y darparwr gwasanaethau maethu—

(a) cyflogi person o dan gontract cyflogaeth i weithio yn y gwasanaeth oni bai bod y person hwnnw yn addas i wneud hynny,

(b) caniatáu i wirfoddolwr weithio yn y gwasanaeth oni bai bod y person hwnnw yn addas i wneud hynny, nac

(c) caniatáu i unrhyw berson arall weithio yn y gwasanaeth mewn swydd y gall, yng nghwrs ei ddyletswyddau, gael cysylltiad rheolaidd ynddi â phlant sy'n cael gofal a chymorth oni bai bod y person hwnnw yn addas i wneud hynny.

(2) At ddibenion paragraff (1), nid yw person yn addas i weithio yn y gwasanaeth oni bai—

DRAFT

(a) bod y person yn addas o ran ei uniondeb ac o gymeriad da,

(b) bod gan y person y cymwysterau, y sgiliau, y cymhwysedd a’r profiad sy’n angenrheidiol ar gyfer y gwaith y mae i’w wneud,

(c) bod y person, oherwydd ei iechyd, ar ôl i addasiadau rhesymol gael eu gwneud, yn gallu cyflawni’n briodol y tasgau sy’n rhan annatod o’i rôl,

(d) bod y person wedi darparu gwybodaeth neu ddogfennaeth lawn a boddhaol, yn ôl y digwydd, mewn cysylltiad â phob un o’r materion a bennir yn Rhan 1 o Atodlen 4, a bod yr wybodaeth hon neu’r ddogfennaeth hon ar gael yn y gwasanaeth i Weinidogion Cymru edrych arni, ac

(e) pan fo’r person wedi ei gyflogi gan y darparwr gwasanaethau maethu i reoli’r gwasanaeth, fod y person wedi ei gofrestru fel rheolwr gofal cymdeithasol â Gofal Cymdeithasol Cymru.

(3) Rhaid i gais gael ei wneud am y dystysgrif y cyfeirir ati ym mharagraffau 2 a 3 o Ran 1 o Atodlen 4 (y cyfeirir ati yn y rheoliad hwn fel tystysgrif GDG) gan neu ar ran y darparwr gwasanaethau maethu at ddiben asesu addasrwydd person ar gyfer y swydd y cyfeirir ati ym mharagraff (1). Ond nid yw’r gofyniad hwn yn gymwys os yw’r person sy’n gweithio yn y gwasanaeth wedi ei gofrestru â gwasanaeth diweddaru’r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (y cyfeirir ato yn y rheoliad hwn fel gwasanaeth diweddaru’r GDG).

(4) Pan fo person sy’n cael ei ystyried ar gyfer swydd y cyfeirir ati ym mharagraff (1) wedi ei gofrestru â gwasanaeth diweddaru’r GDG, rhaid i’r darparwr gwasanaethau maethu wirio statws tystysgrif GDG y person at ddiben asesu addasrwydd y person hwnnw ar gyfer y swydd honno.

(5) Pan fo person a benodir i swydd y cyfeirir ati ym mharagraff (1) wedi ei gofrestru â gwasanaeth diweddaru’r GDG, rhaid i’r darparwr gwasanaethau maethu wirio statws tystysgrif GDG y person o leiaf bob blwyddyn.

(6) Pan na fo person a benodir i swydd y cyfeirir ati ym mharagraff (1) wedi ei gofrestru â gwasanaeth diweddaru’r GDG, rhaid i’r darparwr gwasanaethau maethu wneud cais am dystysgrif GDG newydd mewn cysylltiad â’r person hwnnw o fewn tair blynedd i ddyroddi’r dystysgrif y gwneir cais amdani yn unol â pharagraff (3) ac wedi hynny rhaid i geisiadau pellach o’r fath gael eu gwneud o leiaf bob tair blynedd.

(7) Os nad yw person sy’n gweithio yn y gwasanaeth maethu yn addas i weithio yn y gwasanaeth mwyach o ganlyniad i beidio â bodloni un neu ragor o’r gofynion

DRAFT

ym mharagraff (2), rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu—

(a) cymryd camau gweithredu angenrheidiol a chymesur i ddiogelu plant, a

(b) pan fo'n briodol, hysbysu—

(i) Gofal Cymdeithasol Cymru,

(ii) y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

**Cyfyngiadau ar gyflogaeth**

**55.—**(1) Ni chaiff y darparwr gwasanaethau maethu gyflogi i weithio, at ddibenion y gwasanaeth maethu, mewn swydd y mae paragraff (2) yn gymwys iddi, berson sydd—

(a) yn rhiant maeth sydd wedi ei gymeradwyo gan y gwasanaeth maethu, neu

(b) yn aelod o aelwyd rhiant maeth o'r fath.

(2) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i unrhyw swydd reoli, swydd gwaith cymdeithasol neu swydd broffesiynol arall, oni bai bod y gwaith yn cael ei wneud yn achlysurol, fel gwirfoddolwr, neu am ddim mwy na 5 awr mewn unrhyw wythnos, yn achos swydd nad yw'n swydd reoli nac yn swydd gwaith cymdeithasol.

**Cefnogi a datblygu staff**

**56.**—(1) Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu gael polisi yn ei le ar gyfer cefnogi a datblygu staff.

(2) Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu sicrhau bod unrhyw berson sy'n gweithio yn y gwasanaeth (gan gynnwys person y caniateir iddo weithio fel gwirfoddolwr)—

(a) yn cael cyfnod sefydlu sy'n briodol i'w rôl,

(b) yn cael ei wneud yn ymwybodol o'i gyfrifoldebau ei hun a chyfrifoldebau staff eraill,

(c) yn cwblhau cyfnod prawf yn foddhaol fel sy'n ofynnol,

(d) yn cael ei oruchwylio a'i arfarnu'n briodol,

(e) yn cael hyfforddiant craidd sy'n briodol i'r gwaith sydd i'w wneud ganddo,

(f) yn cael hyfforddiant arbenigol fel y bo'n briodol, ac

(g) yn cael cymorth a chynhorthwy i gael unrhyw hyfforddiant pellach sy'n briodol i'r gwaith y mae'n ei wneud.

(3) Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu sicrhau bod unrhyw berson a gyflogir i weithio yn y gwasanaeth yn rheolwr yn cael ei gefnogi i gynnal ei gofrestriad â Gofal Cymdeithasol Cymru.

DRAFT

### Gwybodaeth ar gyfer staff

**57.—**(1) Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu sicrhau y darperir gwybodaeth i bob person sy'n gweithio yn y gwasanaeth (gan gynnwys unrhyw berson y caniateir iddo weithio fel gwirfoddolwr) am y gwasanaeth a'r ffordd y caiff ei ddarparu.

(2) Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu sicrhau bod trefniadau yn eu lle i wneud staff yn ymwybodol o unrhyw godau ymarfer ynghylch y safonau ymddygiad a ddisgwylir oddi wrth weithwyr gofal cymdeithasol, y mae'n ofynnol i Ofal Cymdeithasol Cymru eu cyhoeddi o dan adran 112(1)(a) o'r Ddeddf.

### Gweithdrefnau disgyblu

**58.—**(1) Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu roi gweithdrefn ddisgyblu yn ei lle a'i gweithredu.

(2) Rhaid i'r weithdrefn ddisgyblu gynnwys—

(a) darpariaeth ar gyfer atal dros dro, a chymryd camau gweithredu heb fod mor bell ag atal dros dro, gyflogeion er budd diogelwch neu lesiant plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth, a

(b) darpariaeth bod methiant ar ran cyflogai i adrodd am achos o gam-drin, neu am amheuaeth o gam-drin, i berson priodol yn sail dros ganiatáu cychwyn achos disgyblu.

(3) At ddiben paragraff (2)(b), person priodol yw—

(a) un o swyddogion Gweinidogion Cymru,

(b) y darparwr gwasanaethau maethu,

(c) yr unigolyn cyfrifol,

(d) swyddog i'r awdurdod lleol,

(e) yn achos cam-drin neu amheuaeth o gam-drin plentyn, swyddog i'r Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant,

(f) swyddog heddlu,

yn ôl y digwydd.

## RHAN 12

## Dyletswyddau Unigolion Cyfrifol

### Cydymffurfio â rheoliadau

**59.** Rhaid i'r unigolyn cyfrifol gydymffurfio â'r gofynion a osodir gan y Rhan 12 hon o'r Rheoliadau hyn.

### Goruchwylio'r gwaith o reoli'r gwasanaeth

**60.** Rhaid i'r unigolyn cyfrifol oruchwylio'r gwaith o reoli'r gwasanaeth.

DRAFT

**Ymweliadau**

**61.—**(1) Rhaid i'r unigolyn cyfrifol—

(a) ymweld â'r fangre y darperir y gwasanaeth ohoni,

(b) cwrdd ag aelodau o staff sydd wedi eu cyflogi gan y darparwr gwasanaethau maethu annibynnol o bob man y mae'r unigolyn cyfrifol wedi ei ddynodi mewn cysylltiad ag ef, ac

(c) cwrdd â'r plant sydd wedi eu lleoli gan y darparwr gwasanaethau maethu annibynnol a'u rhieni maeth.

(2) Mae amlder ymweliadau a chyfarfodydd o'r fath i'w benderfynu gan yr unigolyn cyfrifol, gan roi sylw i'r datganiad o ddiben, ond rhaid i'r rhain gael eu cynnal o leiaf bob tri mis.

**Dyletswydd i benodi rheolwr**

**62.—**(1) Rhaid i'r unigolyn cyfrifol benodi person i reoli'r gwasanaeth. Ond nid yw'r gofyniad hwn yn gymwys os yw'r amodau ym mharagraff (2) neu (3) yn gymwys.

(2) Pan fo'r darparwr gwasanaethau maethu annibynnol yn unigolyn, yr amodau yw—

(a) bod y darparwr gwasanaethau maethu annibynnol yn bwriadu rheoli'r gwasanaeth,

(b) bod y darparwr gwasanaethau maethu annibynnol yn addas i reoli'r gwasanaeth,

(c) bod y darparwr gwasanaethau maethu annibynnol wedi ei gofrestru fel rheolwr â Gofal Cymdeithasol Cymru, a

(d) bod Gweinidogion Cymru yn cytuno i'r darparwr gwasanaethau maethu annibynnol reoli'r gwasanaeth.

(3) Pan fo'r darparwr gwasanaethau maethu annibynnol yn bartneriaeth, yn gorff corfforaethol neu'n gorff anghorfforedig, yr amodau yw—

(a) bod y darparwr gwasanaethau maethu annibynnol yn cynnig bod yr unigolyn sydd wedi ei ddynodi fel yr unigolyn cyfrifol am y gwasanaeth i'w benodi i reoli'r gwasanaeth,

(b) bod yr unigolyn hwnnw yn addas i reoli'r gwasanaeth,

(c) bod yr unigolyn hwnnw wedi ei gofrestru fel rheolwr â Gofal Cymdeithasol Cymru, a

(d) bod Gweinidogion Cymru yn cytuno i'r unigolyn hwnnw reoli'r gwasanaeth.

(4) At ddibenion paragraff (2)(b), nid yw'r darparwr gwasanaethau maethu annibynnol yn addas i reoli'r gwasanaeth oni bai bod gofynion rheoliad 54(2)

DRAFT

(addasrwydd staff) wedi eu bodloni mewn cysylltiad â'r darparwr gwasanaethau maethu annibynnol.

(5) Nid yw'r ddyletswydd ym mharagraff (1) wedi ei chyflawni os yw'r person a benodir i reoli'r gwasanaeth yn absennol am gyfnod o fwy na thri mis.

### Gofynion o ran addasrwydd ar gyfer penodi rheolwr

**63.—**(1) Ni chaiff yr unigolyn cyfrifol benodi person i reoli'r gwasanaeth oni bai bod y person hwnnw yn addas i wneud hynny.

(2) At ddibenion paragraff (1), nid yw person yn addas i reoli'r gwasanaeth oni bai bod gofynion rheoliad 54(2) (addasrwydd staff) wedi eu bodloni mewn cysylltiad â'r person hwnnw.

### Cyfyngiadau ar benodi rheolwr ar gyfer mwy nag un gwasanaeth

**64.—**(1) Ni chaiff yr unigolyn cyfrifol benodi person i reoli mwy nag un gwasanaeth, oni bai bod paragraff (2) yn gymwys.

(2) Mae'r paragraff hwn yn gymwys—

(a) os yw'r darparwr gwasanaethau maethu annibynnol wedi gwneud cais i Weinidogion Cymru am ganiatâd i benodi rheolwr ar gyfer mwy nag un gwasanaeth, a

(b) os yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni—

(i) na fydd y trefniadau rheoli arfaethedig yn cael effaith andwyol ar y gofal a'r cymorth a ddarperir i blant, a

(ii) y bydd y trefniadau rheoli arfaethedig yn darparu goruchwyliaeth ddibynadwy ac effeithiol o bob gwasanaeth.

### Dyletswydd i adrodd am benodiad rheolwr

**65.—**(1) Wrth benodi rheolwr yn unol â rheoliad 62(1) rhaid i'r unigolyn cyfrifol roi hysbysiad—

(a) i'r darparwr gwasanaethau maethu annibynnol—

(i) o enw'r person a benodir, a

(ii) o'r dyddiad y mae'r penodiad i gymryd effaith; a

(b) i Ofal Cymdeithasol Cymru a Gweinidogion Cymru—

(i) o enw, dyddiad geni a rhif cofrestru Gofal Cymdeithasol Cymru y person a benodir, a

(ii) o'r dyddiad y mae'r penodiad i gymryd effaith.

DRAFT

(2) Pan fo darparwr gwasanaethau maethu annibynnol sy’n unigolyn i reoli’r gwasanaeth, rhaid i’r unigolyn hwnnw roi hysbysiad i Ofal Cymdeithasol Cymru—

(a) o’i enw, ei ddyddiad geni a’i rif cofrestru Gofal Cymdeithasol Cymru, a

(b) o’r dyddiad y bydd yn rheoli’r gwasanaeth ohono.

**Y trefniadau pan yw'r rheolwr yn absennol**

**66.**—(1) Rhaid i’r unigolyn cyfrifol roi trefniadau addas yn eu lle i sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei reoli’n effeithiol ar unrhyw adeg pan nad oes rheolwr neu pan fydd y rheolwr yn absennol o’r gwasanaeth.

(2) Os nad oes rheolwr neu os yw’r rheolwr yn absennol am gyfnod o fwy nag 28 o ddiwrnodau, rhaid i’r unigolyn cyfrifol—

(a) rhoi gwybod i’r darparwr gwasanaethau maethu annibynnol a Gweinidogion Cymru, a

(b) eu hysbysu am y trefniadau sydd wedi eu rhoi yn eu lle ar gyfer rheoli’r gwasanaeth yn effeithiol.

**Goruchwylio digonolrwydd adnoddau**

**67.**—(1) Rhaid i’r unigolyn cyfrifol adrodd i’r darparwr gwasanaethau maethu annibynnol am ddigonolrwydd yr adnoddau sydd ar gael i ddarparu’r gwasanaeth yn unol â gofynion y Rheoliadau hyn.

(2) Rhaid i adroddiadau o’r fath gael eu gwneud yn chwarterol.

(3) Nid yw’r gofyniad ym mharagraff (2) yn gymwys pan fo’r darparwr gwasanaethau maethu yn unigolyn.

**Adroddiadau eraill i’r darparwr gwasanaethau maethu annibynnol**

**68.—**(1) Rhaid i’r unigolyn cyfrifol, yn ddi-oed, adrodd i’r darparwr gwasanaethau maethu annibynnol—

(a) am unrhyw bryderon ynghylch rheoli neu ddarparu’r gwasanaeth,

(b) am unrhyw newidiadau sylweddol i’r ffordd y caiff y gwasanaeth ei reoli neu ei ddarparu, ac

(c) am unrhyw bryderon nad yw’r gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn unol â’r datganiad o ddiben ar gyfer y gwasanaeth.

(2) Nid yw’r gofyniad ym mharagraff (1) yn gymwys pan fo’r darparwr gwasanaethau maethu annibynnol yn unigolyn.

**Dyletswydd i sicrhau bod systemau yn eu lle i gofnodi digwyddiadau a chwynion**

**69.** Rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau bod systemau effeithiol yn eu lle i gofnodi digwyddiadau, cwynion a materion y mae rhaid gwneud hysbysiadau yn eu cylch yn unol â rheoliadau 8 a 77.

**Dyletswydd i sicrhau bod systemau yn eu lle ar gyfer cadw cofnodion**

**70.** Rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau bod systemau effeithiol yn eu lle mewn perthynas â'r cofnodion y mae rhaid eu cadw o dan reoliad 34, sy'n cynnwys systemau ar gyfer sicrhau bod cofnodion yn gywir ac yn gyflawn.

**Ymgysylltu â phlant ac eraill**

**71.—**(1) Rhaid i'r unigolyn cyfrifol roi trefniadau addas yn eu lle ar gyfer cael safbwyntiau—

(a) unrhyw blentyn sydd wedi ei leoli gan y darparwr gwasanaethau maethu annibynnol,

(b) rhieni unrhyw blentyn o'r fath, oni bai bod hyn yn amhriodol neu'n anghyson â llesiant y plentyn,

(c) rhieni maeth,

(d) yr awdurdod lleoli, ac

(e) staff sy'n cael eu cyflogi yn y gwasanaeth

ar ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir i blant a sut y gellir gwella hyn.

(2) Rhaid i'r unigolyn cyfrifol adrodd am y safbwyntiau a geir i'r darparwr gwasanaethau maethu annibynnol er mwyn i'r safbwyntiau hyn allu cael eu hystyried gan y darparwr wrth wneud unrhyw benderfyniadau ar gynlluniau ar gyfer gwella ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir gan y gwasanaeth.

**Adolygiad o ansawdd**

**72.—**(1) Rhaid i'r unigolyn cyfrifol roi trefniadau addas yn eu lle i sefydlu a chynnal system ar gyfer monitro ac adolygu ansawdd y gwasanaeth.

(2) Rhaid i'r system a sefydlir o dan baragraff (1) wneud darpariaeth i ansawdd y gwasanaeth gael ei adolygu mor aml ag sy'n ofynnol ond o leiaf bob chwe mis.

(3) Fel rhan o unrhyw adolygiad a gynhelir, rhaid i'r unigolyn cyfrifol wneud trefniadau ar gyfer—

(a) ystyried canlyniad yr ymgysylltiad â phlant ac eraill, fel sy'n ofynnol gan reoliad 71 (ymgysylltu â phlant ac eraill),

DRAFT

(b) dadansoddi'r data cyfanredol ar hysbysiadau, materion diogelu, pryderon chwythu'r chwiban a chwynion,

(c) adolygu unrhyw gamau gweithredu a gymerir mewn perthynas â chwynion, a

(d) ystyried canlyniad unrhyw archwiliad o gywirdeb a chyflawnrwydd cofnodion.

(4) Ar ôl cwblhau adolygiad o ansawdd y gwasanaeth yn unol â'r rheoliad hwn, rhaid i'r unigolyn cyfrifol lunio adroddiad i'r darparwr gwasanaethau maethu annibynnol y mae rhaid iddo gynnwys—

(a) asesiad o safon y gofal a'r cymorth a ddarperir, a

(b) argymhellion ar gyfer gwella'r gwasanaeth.

(5) Nid yw'r gofyniad ym mharagraff (4) yn gymwys pan fo'r darparwr gwasanaethau maethu annibynnol yn unigolyn.

**Datganiad o gydymffurfedd â'r gofynion o ran safonau gofal a chymorth**

**73.—**(1) Rhaid i'r unigolyn cyfrifol lunio'r datganiad y mae'n ofynnol iddo gael ei gynnwys yn y datganiad blynyddol o dan adran 10(2)(b) o Ddeddf 2016.

(2) Wrth lunio'r datganiad, rhaid i'r unigolyn cyfrifol roi sylw i'r asesiad o safon y gofal a'r cymorth a gynhwysir yn yr adroddiad a lunnir yn unol â rheoliad 72(4).

**Dyletswydd i sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau yn gyfredol**

**74.** Rhaid i'r unigolyn cyfrifol roi trefniadau addas yn eu lle i sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau'r darparwr gwasanaethau maethu annibynnol yn cael eu cadw'n gyfredol, gan roi sylw i'r datganiad o ddiben.

**Cymorth ar gyfer codi pryderon**

**75.** Rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau y cydymffurfir â pholisi chwythu chwiban y darparwr a bod y trefniadau i alluogi a chefnogi pobl sy'n gweithio yn y gwasanaeth a rhieni maeth i godi pryderon o'r fath yn cael eu gweithredu'n effeithiol.

**Dyletswydd gonestrwydd**

**76.** Rhaid i'r unigolyn cyfrifol weithredu mewn ffordd agored a thryloyw gydag—

(a) unrhyw blentyn sydd wedi ei leoli gan y darparwr gwasanaethau maethu annibynnol,

(b) rhieni unrhyw blentyn o'r fath,

(c) rhieni maeth a darpar rieni maeth,

(d) yr awdurdod lleoli.

### Hysbysiadau

**77.—**(1) Rhaid i'r unigolyn cyfrifol hysbysu Gweinidogion Cymru am y digwyddiadau a bennir yn Atodlen 5.

(2) Rhaid i'r hysbysiadau sy'n ofynnol gan baragraff (1) gynnwys manylion y digwyddiad.

(3) Oni nodir fel arall, rhaid i hysbysiadau gael eu gwneud yn ddi-oed ac yn ysgrifenedig.

(4) Rhaid i hysbysiadau gael eu gwneud yn y modd a'r ffurf sy'n ofynnol gan Weinidogion Cymru.

### Methiant i gydymffurfio â'r rheoliadau

**78.—**(1) Mae'n drosedd i'r unigolyn cyfrifol fethu â chydymffurfio â gofyniad unrhyw un neu ragor o'r darpariaethau a bennir ym mharagraff (2)(**1**).

(2) Y darpariaethau a bennir at ddibenion paragraff (1) yw darpariaethau rheoliadau—

(a) 61(1) (ymweliadau),

(b) 61(2) (ymweliadau),

(c) 62(1) (dyletswydd i benodi rheolwr),

(d) 63(1) (gofynion o ran addasrwydd ar gyfer penodi rheolwr),

(e) 65(1)(b) (dyletswydd i adrodd am benodiad rheolwr),

(f) 65(2) (dyletswydd i adrodd am benodiad rheolwr),

(g) 67(1) (goruchwylio digonolrwydd adnoddau),

(h) 67(2) (goruchwylio digonolrwydd adnoddau),

(i) 68(1) (adroddiadau eraill i'r darparwr gwasanaethau maethu annibynnol),

(j) 72(4) (adolygiad o ansawdd),

(k) 73(1) (datganiad o gydymffurfedd â'r gofynion o ran safonau gofal a chymorth),

(l) 77(1) (hysbysiadau), a

(m) 77(3) (hysbysiadau).

(**1**) Am gosbau yn dilyn euogfarn am drosedd o dan y rheoliad hwn, gweler adran 51(1) o Ddeddf 2016.

# RHAN 13

## Dyletswyddau rheolwr yr awdurdod lleol

### Goruchwylio digonolrwydd adnoddau

**79.**—(1) Rhaid i reolwr yr awdurdod lleol adrodd i ddarparwr gwasanaethau maethu'r awdurdod lleol am ddigonolrwydd yr adnoddau sydd ar gael i ddarparu'r gwasanaeth yn unol â gofynion y Rheoliadau hyn.

(2) Rhaid i adroddiadau o'r fath gael eu gwneud yn chwarterol.

### Adroddiadau eraill i ddarparwr gwasanaethau maethu'r awdurdod lleol

**80.** Rhaid i reolwr yr awdurdod lleol, yn ddi-oed, adrodd i'r darparwr—

(a) am unrhyw bryderon ynghylch darparu'r gwasanaeth,

(b) am unrhyw newidiadau sylweddol i'r ffordd y caiff y gwasanaeth ei reoli neu ei ddarparu, ac

(c) am unrhyw bryderon nad yw'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn unol â'r datganiad o ddiben ar gyfer y gwasanaeth.

### Dyletswydd i sicrhau bod systemau yn eu lle i gofnodi cwynion

**81.** Rhaid i reolwr yr awdurdod lleol sicrhau bod systemau effeithiol yn eu lle i gofnodi cwynion.

### Dyletswydd i sicrhau bod systemau yn eu lle ar gyfer cadw cofnodion

**82.** Rhaid i reolwr yr awdurdod lleol sicrhau bod systemau effeithiol yn eu lle mewn perthynas â'r cofnodion y mae rhaid eu cadw yn unol â rheoliad 34, sy'n cynnwys systemau ar gyfer sicrhau bod cofnodion yn gywir ac yn gyflawn.

### Dyletswydd i sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau yn gyfredol

**83.** Rhaid i reolwr yr awdurdod lleol roi trefniadau addas yn eu lle i sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau'r darparwr yn cael eu cadw'n gyfredol, gan roi sylw i'r datganiad o ddiben ar gyfer gwasanaeth maethu'r awdurdod lleol.

### Ymgysylltu â phlant ac eraill

**84.**—(1) Rhaid i reolwr yr awdurdod lleol roi trefniadau addas yn eu lle ar gyfer cael safbwyntiau—

DRAFT

(a) unrhyw blentyn sydd wedi ei leoli gan ddarparwr gwasanaethau maethu’r awdurdod lleol,

(b) rhieni unrhyw blentyn o’r fath, oni bai bod hyn yn amhriodol neu’n anghyson â llesiant y plentyn,

(c) rhieni maeth, a

(d) staff sy’n cael eu cyflogi yn y gwasanaeth

ar ansawdd y gofal a’r cymorth a ddarperir a sut y gellir gwella hyn.

(2) Rhaid i reolwr yr awdurdod lleol adrodd am y safbwyntiau a geir i ddarparwr gwasanaethau maethu’r awdurdod lleol er mwyn i’r safbwyntiau hyn allu cael eu hystyried gan y darparwr wrth wneud unrhyw benderfyniadau ar gynlluniau ar gyfer gwella ansawdd y gofal a’r cymorth a ddarperir gan y gwasanaeth.

**Adolygiad o ansawdd y gofal**

**85.**—(1) Rhaid i reolwr yr awdurdod lleol roi trefniadau addas yn eu lle i sefydlu a chynnal system ar gyfer monitro, adolygu a gwella ansawdd a ddarperir gan wasanaeth maethu’r awdurdod lleol.

(2) Rhaid i’r system a sefydlir o dan baragraff (1) wneud darpariaeth i ansawdd y gofal a’r cymorth gael ei adolygu mor aml ag sy’n ofynnol ond o leiaf bob 12 mis.

**Cymorth ar gyfer codi pryderon**

**86.** Rhaid i reolwr yr awdurdod lleol sicrhau y cydymffurfir â pholisi chwythu chwiban darparwr gwasanaethau maethu’r awdurdod lleol a bod y trefniadau i alluogi a chefnogi pobl sy’n gweithio yn y gwasanaeth a rhieni maeth i godi pryderon o’r fath yn cael eu gweithredu’n effeithiol.

DRAFT

# RHAN 14

## Sefydlu Paneli Maethu a'u Swyddogaethau

### Y rhestr ganolog

**87.**—(1) Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu gynnal rhestr o bersonau y mae'n ystyried eu bod yn addas i fod yn aelodau o banel maethu ("y rhestr ganolog"), gan gynnwys—

(a) un neu ragor o weithwyr cymdeithasol a chanddynt o leiaf dair blynedd o brofiad ôl-gymhwyso perthnasol, a

(b) un neu ragor o bersonau sydd wedi gweithredu fel rhiant maeth, ar yr amod nad ydynt wedi eu penodi, ac nad ydynt erioed wedi eu penodi, yn rhiant maeth gan y darparwr gwasanaethau maethu y cyfeirir ato ym mharagraff (1).

(2) Caiff person sydd wedi ei gynnwys ar y rhestr ganolog ofyn ar unrhyw adeg i'w enw gael ei ddileu o'r rhestr ganolog drwy roi mis o rybudd yn ysgrifenedig i'r darparwr gwasanaethau maethu, a nodi'r rhesymau am y penderfyniad.

(3) Pan fo'r darparwr gwasanaethau maethu o'r farn bod person sydd wedi ei gynnwys ar y rhestr ganolog yn anaddas i aros ar y rhestr neu pan na all person o'r fath aros ar y rhestr, caiff y darparwr gwasanaethau maethu ddileu enw'r person hwnnw o'r rhestr drwy roi mis o rybudd yn ysgrifenedig iddo.

(4) Yn ddarostyngedig i baragraff (5), o ran aelod o'r rhestr ganolog—

(a) caiff ddal swydd am dymor nad yw'n hwy na thair blynedd, a

(b) ni chaiff ddal swydd fel aelod o restr ganolog yr un darparwr gwasanaethau maethu am fwy na thri thymor heb gyfnod o ysbaid yn y canol.

(5) At ddibenion paragraff (4)(b), ystyr "cyfnod o ysbaid yn y canol" yw cyfnod di-dor o dair blynedd o leiaf pan nad oedd yr unigolyn o dan sylw yn aelod o'r rhestr ganolog yn ystod y cyfnod cyfan hwnnw.

### Paneli maethu

**88.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu gyfansoddi un neu ragor o baneli maethu, fel y bo angen, i gyflawni swyddogaethau panel maethu o dan y Rheoliadau hyn, a rhaid iddo benodi aelodau'r paneli o blith y personau sydd ar y rhestr ganolog gan gynnwys—



DRAFT

(a) person, y mae rhaid iddo fod yn annibynnol ar y darparwr gwasanaethau maethu, i gadeirio'r panel (gweler paragraff (7) isod), a

(b) un neu ddau o bersonau a gaiff weithredu fel cadeirydd os yw'r person a benodwyd i gadeirio'r panel yn absennol neu os yw'r swydd honno yn wag ("yr is-gadeiryddion").

(2) Caniateir i banel maethu gael ei gyfansoddi ar y cyd gan unrhyw ddau neu ragor o ddarparwyr gwasanaethau maethu, ac yn yr achos hwnnw rhaid i'r aelodau gael eu penodi drwy gytundeb rhwng y darparwyr gwasanaethau maethu.

(3) Caiff awdurdod lleol dalu i unrhyw aelod o banel maethu a gyfansoddir ganddo unrhyw ffi a benderfynir ganddo, a hynny'n ffi o swm rhesymol.

(4) Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu sicrhau bod digon o aelodau ar y panel maethu, a bod gan yr aelodau unigol rhyngddynt y profiad a'r arbenigedd sy'n angenrheidiol i gyflawni swyddogaethau'r panel yn effeithiol.

(5) Caiff unrhyw aelod o banel maethu ymddiswyddo ar unrhyw adeg drwy roi mis o rybudd yn ysgrifenedig i'r darparwr gwasanaethau maethu a'i penododd.

(6) Pan fo darparwr gwasanaethau maethu o'r farn bod unrhyw aelod o'r panel maethu a benodwyd ganddo yn anaddas i barhau fel aelod o'r panel neu na all person o'r fath barhau fel aelod o'r panel, caiff derfynu penodiad yr aelod hwnnw ar unrhyw adeg drwy roi rhybudd yn ysgrifenedig iddo, a nodi'r rhesymau am y penderfyniad.

(7) At ddibenion y rheoliad hwn a rheoliad 90, nid yw person yn annibynnol ar y darparwr gwasanaethau maethu—

(a) os yw wedi ei gymeradwyo ar hyn o bryd gan y darparwr gwasanaethau maethu i fod yn rhiant maeth,

(b) os yw'n perthyn i un o gyflogeion y darparwr gwasanaethau maethu, neu i unrhyw berson sy'n ymwneud â rheoli'r gwasanaeth hwnnw,

(c) yn achos gwasanaeth maethu awdurdod lleol, os yw'r person yn aelod etholedig o'r awdurdod lleol hwnnw, neu wedi ei gyflogi gan yr awdurdod lleol hwnnw at ddibenion y gwasanaeth maethu neu at ddibenion unrhyw un neu ragor o swyddogaethau'r awdurdod lleol hwnnw sy'n ymwneud ag amddiffyn neu leoli plant,

(d) yn achos gwasanaeth maethu annibynnol, os yw'r person wedi ei gyflogi gan y gwasanaeth hwnnw neu yn un o ymddiriedolwyr y gwasanaeth hwnnw,

(e) at ddibenion paragraff (ii), mae person (“person A”) yn perthyn i berson arall (“person B”) os yw person A—

(aa) yn aelod o aelwyd person B, neu’n briod â pherson B neu’n bartner sifil i berson B;

(ab) yn fab, merch, mam, tad, chwaer neu frawd person B, neu

(ac) yn fab, merch, mam, tad, neu frawd y person y mae person B yn briod ag ef neu y mae person B wedi cofrestru partneriaeth sifil ag ef.

**Swyddogaethau paneli maethu**

**89.**—(1) Swyddogaethau’r panel maethu mewn cysylltiad ag achosion a atgyfeirir iddo gan y darparwr gwasanaethau maethu yw—

(a) ystyried pob cais am gymeradwyaeth ac argymell pa un a yw person yn addas i weithredu fel rhiant maeth ai peidio,

(b) pan fo’n argymell bod cais yn cael ei gymeradwyo, argymell ar ba delerau y rhoddir y gymeradwyaeth,

(c) argymell pa un a yw person yn parhau i fod yn addas i weithredu fel rhiant maeth ai peidio, a pha un a yw telerau cymeradwyaeth y person yn parhau i fod yn briodol ai peidio—

(i) ar adeg cynnal yr adolygiad cyntaf yn unol â rheoliad 93(1); a

(ii) ar adeg cynnal unrhyw adolygiad arall pan ofynnir iddo wneud hynny gan y darparwr gwasanaethau maethu yn unol â rheoliad 93(5), a

(d) ystyried unrhyw achos a atgyfeirir iddo o dan reoliad 92(9) neu 93(10).

(2) Wrth ystyried pa argymhelliad i’w wneud o dan baragraff (1), o ran y panel maethu—

(a) rhaid iddo bwyso a mesur ac ystyried yr holl wybodaeth sy’n cael ei throsglwyddo iddo yn unol â rheoliad 91, 92 neu 93 (yn ôl y digwydd),

(b) caiff ofyn i’r darparwr gwasanaethau maethu gael unrhyw wybodaeth berthnasol arall y mae’r panel yn ystyried ei bod yn angenrheidiol neu ddarparu unrhyw gynhorthwy arall y mae’r panel maethu yn gofyn amdano, ac

(c) caiff gael unrhyw gyngor cyfreithiol neu feddygol y mae’n ystyried ei fod yn angenrheidiol mewn perthynas â’r achos.

DRAFT

(3) Mewn perthynas ag achos person y mae adroddiad wedi ei lunio mewn cysylltiad ag ef yn unol â rheoliad 91(6), rhaid i'r panel maethu naill ai—

(a) gofyn i'r darparwr gwasanaethau maethu lunio adroddiad ysgrifenedig pellach, sy'n cwmpasu'r holl faterion a nodir yn rheoliad 91(5)(c), neu

(b) argymell nad yw'r person yn addas i fod yn rhiant maeth.

(4) Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu gael unrhyw wybodaeth y mae'r panel maethu yn ystyried ei bod yn angenrheidiol ac anfon yr wybodaeth honno i'r panel, a darparu unrhyw gynhorthwy arall y mae'r panel maethu yn gofyn amdano, i'r graddau y bo'n rhesymol ymarferol.

(5) Rhaid i'r panel maethu hefyd—

(a) cynghori ar y gweithdrefnau y cynhelir adolygiadau oddi tanynt gan y darparwr gwasanaethau maethu yn unol â rheoliad 96, a monitro eu heffeithiolrwydd o bryd i'w gilydd,

(b) goruchwylio'r ffordd y cynhelir asesiadau gan y darparwr gwasanaethau maethu, ac

(c) rhoi cyngor a chynnig argymhellion ar unrhyw faterion eraill neu achosion unigol y mae'r darparwr gwasanaethau maethu yn eu hatgyfeirio iddo.

(6) Rhaid i'r panel maethu hefyd wneud cofnod ysgrifenedig o'i drafodion a'r rhesymau dros ei argymhellion.

(7) Yn y rheoliad hwn ystyr "argymell" yw argymell i'r darparwr gwasanaethau maethu.

**Cyfarfodydd paneli maethu**

**90.**—(1) Ni chaniateir i unrhyw fusnes gael ei gynnal gan banel maethu oni bai bod o leiaf y canlynol yn cyfarfod fel panel—

(a) naill ai'r person a benodwyd i gadeirio'r panel neu un o'r is-gadeiryddion,

(b) un aelod sy'n weithiwr cymdeithasol a chanddo o leiaf dair blynedd o brofiad ôl-gymhwyso perthnasol, ac

(c) tri, neu yn achos panel maethu a gyfansoddir ar y cyd o dan reoliad 88(2), bedwar aelod arall, a

phan na fo'r cadeirydd yn bresennol ac na fo'r is-gadeirydd sy'n bresennol yn annibynnol ar y darparwr gwasanaethau maethu, rhaid i o leiaf un o aelodau eraill y panel fod yn annibynnol ar y darparwr gwasanaethau maethu.

(2) Rhaid i banel maethu wneud cofnod ysgrifenedig o'i drafodion a'r rhesymau dros ei argymhellion.

**Asesu darpar rieni maeth**

**91.—**(1) Pan fo person yn gwneud cais i ddod yn rhiant maeth a bod y darparwr gwasanaethau maethu yn penderfynu asesu addasrwydd y person hwnnw i ddod yn rhiant maeth, rhaid cynnal unrhyw asesiad o'r fath yn unol â'r rheoliad hwn.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), o ran y darparwr gwasanaethau maethu—

(a) rhaid iddo, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, gael yr wybodaeth a bennir yn Rhan 1 o Atodlen 6 sy'n ymwneud â'r person ac aelodau eraill o aelwyd y person a'i deulu,

(b) pan fo'r person wedi bod yn rhiant maeth o fewn y 12 mis blaenorol ac wedi ei gymeradwyo felly gan ddarparwr gwasanaethau maethu arall, rhaid iddo ofyn am eirda ysgrifenedig oddi wrth y darparwr gwasanaethau maethu arall hwnnw,

(c) ac eithrio mewn achos pan fo (b) yn gymwys a bod y darparwr gwasanaethau maethu arall yn darparu'r geirda y gofynnir amdano, rhaid iddo gyf-weld ag o leiaf ddau unigolyn sydd wedi eu henwebu gan y person i ddarparu geirda personol ar ei gyfer, a llunio adroddiadau ysgrifenedig am y cyfweliadau,

(d) ac eithrio pan fo'r darparwr gwasanaethau maethu yn awdurdod lleol a bod y person yn byw yn ardal yr awdurdod hwnnw, rhaid iddo ymgynghori â'r awdurdod lleol y mae'r person yn byw yn ei ardal, ac ystyried safbwyntiau'r awdurdod hwnnw,

(e) pan fo'r person wedi ei gymeradwyo yn rhiant maeth gan ddarparwr gwasanaethau maethu arall a'i fod yn cydsynio i hynny, caiff ofyn am gael mynediad i'r cofnodion perthnasol a luniwyd gan y darparwr gwasanaethau maethu arall hwnnw mewn perthynas â'r person, ac

(f) pan fo'r person wedi ei gymeradwyo yn ddarpar fabwysiadydd gan asiantaeth fabwysiadu a'i fod yn cydsynio i hynny, caiff ofyn am gael mynediad i'r cofnodion perthnasol a luniwyd gan yr asiantaeth fabwysiadu honno mewn perthynas â'r person hwnnw.

(3) Pan fo—

(a) y darparwr gwasanaethau maethu, ar ôl rhoi sylw i unrhyw wybodaeth a geir o dan baragraff (2), yn penderfynu nad yw'r person yn addas i ddod yn rhiant maeth, neu

(b) y person yn anaddas i ddod yn rhiant maeth yn rhinwedd paragraffau 8 i 10, ac nid yw paragraff 11 yn gymwys,

DRAFT

rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu hysbysu'r person yn ysgrifenedig nad yw'n addas i fod yn rhiant maeth gan roi'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw.

(4) O ran yr hysbysiad ym mharagraff (3)—

(a) caniateir iddo gael ei roi er gwaethaf nad yw'r darparwr gwasanaethau maethu wedi cael yr holl wybodaeth a nodir ym mharagraff (2), a

(b) ni chaniateir iddo gael ei roi fwy na 10 niwrnod gwaith ar ôl i'r darparwr gwasanaethau maethu gael yr holl wybodaeth a nodir ym mharagraff (2).

(5) Pan fo'r darparwr gwasanaethau maethu wedi cael yr holl wybodaeth a nodir ym mharagraff (2) ac na fo wedi rhoi'r hysbysiad ym mharagraff (3) o fewn 10 niwrnod gwaith i wneud hynny, rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu, yn ddarostyngedig i baragraff (6)—

(a) cael yr wybodaeth a bennir yn Rhan 2 o Atodlen 6 sy'n ymwneud â'r person ac aelodau eraill o aelwyd y person ac unrhyw wybodaeth arall yr ystyrir ei bod yn berthnasol,

(b) ystyried a yw'r person yn addas i fod yn rhiant maeth ac a yw aelwyd y person yn addas ar gyfer unrhyw blentyn,

(c) llunio adroddiad ysgrifenedig ar y person sy'n cynnwys y materion a ganlyn—

(i) yr wybodaeth sy'n ofynnol gan Atodlen 6 ac unrhyw wybodaeth arall y mae'r darparwr gwasanaethau maethu yn ystyried ei bod yn berthnasol,

(ii) asesiad y darparwr gwasanaethau maethu o addasrwydd y person i fod yn rhiant maeth; a

(iii) cynigion y darparwr gwasanaethau maethu ynghylch unrhyw delerau cymeradwyo, a

(d) hysbysu'r person bod yr achos i'w atgyfeirio i'r panel maethu, a rhoi copi i'r person o'r adroddiad a lunnir o dan is-baragraff (c) gan wahodd y person i anfon unrhyw sylwadau yn ysgrifenedig i'r darparwr gwasanaethau maethu o fewn 10 niwrnod gwaith sy'n dechrau â'r dyddiad yr anfonir yr hysbysiad.

(6) Pan fo'r darparwr gwasanaethau maethu, ar ôl rhoi sylw i unrhyw wybodaeth a geir o dan baragraff 5(a), yn penderfynu nad yw'r person yn debygol o gael ei ystyried yn addas i ddod yn rhiant maeth, caiff lunio adroddiad ysgrifenedig o dan baragraff (5)(c) er gwaethaf nad yw'r darparwr gwasanaethau maethu wedi cael yr holl wybodaeth am y person sy'n ofynnol gan baragraff (5)(c).

(7) Ar ddiwedd y cyfnod o 10 niwrnod gwaith y cyfeirir ato ym mharagraff (5)(d) (neu pan geir sylwadau'r person, pa un bynnag sydd gynharaf), rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu anfon—

(a) yr adroddiad a lunnir o dan baragraff (5)(c),

(b) sylwadau'r person ar yr adroddiad hwnnw, os oes sylwadau, ac

(c) unrhyw wybodaeth berthnasol arall a geir gan y darparwr gwasanaethau maethu,

i'r panel maethu.

(8) Yn ddarostyngedig i baragraff (11), nid yw'r person yn addas i fod yn rhiant maeth os yw'r person, neu unrhyw aelod o aelwyd y person sy'n 18 oed neu drosodd—

(a) wedi ei euogfarnu o drosedd benodedig a gyflawnwyd pan oedd yn 18 oed neu drosodd, neu

(b) wedi cael rhybuddiad gan gwnstabl mewn cysylltiad ag unrhyw drosedd o'r fath.

(9) Ym mharagraff (8) ystyr "trosedd benodedig" yw—

(a) trosedd yn erbyn plentyn,

(b) trosedd a bennir yn Rhan 1 o Atodlen 7,

(c) trosedd yn groes i adran 170 o Ddeddf Rheoli Tollau Tramor a Chartref 1979(**1**) mewn perthynas â nwyddau y gwaherddir eu mewnforio o dan adran 42 o Ddeddf Cydgrynhoi Tollau 1876(**2**) (gwaharddiadau a chyfyngiadau) pan oedd y nwyddau gwaharddedig yn cynnwys ffotograffau anweddus o blant o dan 16 oed,

(d) unrhyw drosedd arall sy'n ymwneud ag anaf corfforol i blentyn, ac eithrio trosedd o ymosod cyffredin neu guro, ac

mae i'r ymadrodd "trosedd yn erbyn plentyn" yr ystyr a roddir i "offence against a child" gan adran 26(1) o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Gwasanaethau Llysoedd 2000(**3**), er gwaethaf bod y ddarpariaeth honno wedi ei diddymu(**4**), ac eithrio nad yw'n cynnwys trosedd yn groes i adran 9 o Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003(**5**) (gweithgaredd rhywiol gyda phlentyn) mewn achos pan oedd y troseddwr o

DRAFT

(**1**) 1979 p. 2.

(**2**) 1876 p. 36. Diwygiwyd adran 42 gan Ran IX o Atodlen 1 i Ddeddf Cyfraith Statud (Diddymiadau) 1993 (p. 50), a pharagraff 1 o Atodlen 2 i Ddeddf Cyfraith Statud (Diddymiadau) 2008 (p. 12) a chan ddarpariaethau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**3**) 2000 p. 43.

(**4**) *Gweler* Atodlen 10 i Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 (p. 47).

(**5**) 2003 p. 42.

dan 20 oed ar adeg cyflawni'r drosedd a bod y plentyn yn 13 oed neu drosodd.

(10) Yn ddarostyngedig i baragraff (11), nid yw person yn addas i fod yn rhiant maeth os yw'r person, neu unrhyw aelod o aelwyd y person sy'n 18 oed neu drosodd—

(a) wedi ei euogfarnu o drosedd a bennir ym mharagraff 1 o Ran 2 o Atodlen 7 a gyflawnwyd pan oedd yn 18 oed neu drosodd, neu wedi cael rhybuddiad gan gwnstabl mewn cysylltiad ag unrhyw drosedd o'r fath, neu

(b) yn dod o fewn paragraff 2 neu 3 o Ran 2 o Atodlen 7,

er gwaethaf bod y troseddau statudol yn Rhan 2 o Atodlen 7 wedi eu diddymu.

(11) Caiff y darparwr gwasanaethau maethu ystyried bod person sy'n dod o fewn paragraff (8) neu (10) yn addas i fod yn rhiant maeth mewn perthynas â phlentyn (neu blant) penodol, os yw'r darparwr gwasanaethau maethu wedi ei fodloni bod hynny'n ofynnol er lles y plentyn hwnnw (neu'r plant hynny), a naill ai—

(a) bod y person, neu aelod o'i aelwyd, yn berthynas i'r plentyn, neu

(b) bod y person eisoes yn gweithredu fel rhiant maeth i'r plentyn.

(12) Yn y rheoliad hwn, a rheoliadau 92 a 93 ac Atodlenni 6 ac 8, mae person sy'n byw yn aelwyd y person o dan drefniadau rhiant a phlentyn yn aelod o aelwyd y person.

**Cymeradwyo rhieni maeth**

**92.—**(1) Ni chaiff darparwr gwasanaethau maethu gymeradwyo person sydd wedi ei gymeradwyo'n rhiant maeth gan ddarparwr gwasanaethau maethu arall ac nad yw'r gymeradwyaeth honno wedi ei therfynu.

(2) Ni chaiff darparwr gwasanaethau maethu gymeradwyo person yn rhiant maeth oni bai—

(a) bod y darparwr wedi cwblhau ei asesiad o addasrwydd y person, a

(b) bod panel maethu'r darparwr wedi ystyried y cais.

(3) Rhaid i ddarparwr gwasanaethau maethu, wrth benderfynu pa un ai i gymeradwyo person yn rhiant maeth ac o ran telerau unrhyw gymeradwyaeth, ystyried argymhelliad y panel maethu.

(4) Ni chaiff unrhyw aelod o'r panel maethu gymryd rhan mewn unrhyw benderfyniad a wneir gan ddarparwr gwasanaethau maethu o dan baragraff (3).

(5) Os yw darparwr gwasanaethau maethu yn penderfynu cymeradwyo person yn rhiant maeth, rhaid i'r darparwr—

(a) rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'r person sy'n pennu telerau'r gymeradwyaeth i fod yn rhiant maeth, er enghraifft, a yw'r gymeradwyaeth wedi ei rhoi mewn cysylltiad â phlentyn neu blant penodol a enwir, neu nifer penodol o blant ac ystod oedran benodol o blant, neu leoliadau o unrhyw fath penodol, neu o dan unrhyw amgylchiadau penodol, a

(b) ymrwymo i gytundeb gofal maeth â'r person.

(6) Os yw darparwr gwasanaethau maethu yn ystyried nad yw person yn addas i weithredu fel rhiant maeth, rhaid i'r darparwr, yn ddarostyngedig i baragraff (7)—

(a) rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'r person o'r cynnig i beidio â chymeradwyo'r person fel un sy'n addas i weithredu fel rhiant maeth ("penderfyniad"), ynghyd â'r rhesymau dros y cynnig hwnnw a chopi o argymhelliad y panel maethu, a

(b) hysbysu'r person y caiff, o fewn 28 o ddiwrnodau i ddyddiad yr hysbysiad—

(i) cyflwyno unrhyw sylwadau ysgrifenedig y mae'r person yn dymuno eu cyflwyno i'r darparwr gwasanaethau maethu; neu

(ii) gwneud cais i Weinidogion Cymru am adolygiad o'r penderfyniad gan banel adolygu annibynnol.

(7) Nid yw paragraff (6)(b)(ii) yn gymwys mewn achos pan fo'r darparwr gwasanaethau maethu yn penderfynu nad yw o'r farn mwyach fod person yn addas i weithredu neu i barhau i weithredu, yn ôl y digwydd, fel rhiant maeth o dan reoliad 91(11).

(8) Os, o fewn y cyfnod y cyfeirir ato ym mharagraff (6)(b)—

(a) nad yw'r darparwr gwasanaethau maethu yn cael unrhyw sylwadau, a

(b) nad yw'r person yn gwneud cais i Weinidogion Cymru am adolygiad gan banel adolygu annibynnol o'r penderfyniad,

caiff y darparwr gwasanaethau maethu fwrw ymlaen i wneud ei benderfyniad.

(9) Os yw'r darparwr gwasanaethau maethu yn cael unrhyw sylwadau ysgrifenedig o fewn y cyfnod y cyfeirir ato ym mharagraff (6)(b), rhaid i'r darparwr—

(a) atgyfeirio'r achos i'r panel maethu i'w ystyried ymhellach,

(b) gwneud penderfyniad, gan ystyried unrhyw argymhelliad newydd a wneir gan y panel maethu.

DRAFT

(10) Os yw'r person, o fewn y cyfnod y cyfeirir ato ym mharagraff (6)(b), yn gwneud cais i Weinidogion Cymru am adolygiad gan banel adolygu annibynnol o'r penderfyniad, rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu wneud penderfyniad gan ystyried argymhelliad y panel maethu ac argymhelliad y panel adolygu annibynnol.

(11) Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl gwneud y penderfyniad y cyfeirir ato ym mharagraff (8), (9)(b) neu (10) yn ôl y digwydd, rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu roi hysbysiad ysgrifenedig i'r person ac —

(a) os cymeradwyo'r person i fod yn rhiant maeth yw'r penderfyniad, gydymffurfio â pharagraff (5) mewn perthynas â'r person, neu

(b) os peidio â chymeradwyo'r person yw'r penderfyniad, ddarparu rhesymau ysgrifenedig dros ei benderfyniad.

(12) Mewn achos pan fo panel adolygu annibynnol wedi gwneud argymhelliad, rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu anfon copi o'r hysbysiad y cyfeirir ato ym mharagraff (11) at Weinidogion Cymru.

**Adolygu a therfynu cymeradwyaeth**

**93.—**(1) Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu adolygu cymeradwyaeth pob rhiant maeth yn unol â'r rheoliad hwn.

(2) Rhaid cynnal adolygiad o fewn blwyddyn ar ôl cael y gymeradwyaeth fan bellaf, ac ar ôl hynny pa bryd bynnag y mae'r darparwr gwasanaethau maethu yn ystyried ei bod yn angenrheidiol, ond o leiaf unwaith y flwyddyn.

(3) Wrth gynnal adolygiad, rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu—

(a) gwneud unrhyw ymholiadau a chael unrhyw wybodaeth y mae'n ystyried eu bod yn angenrheidiol er mwyn adolygu a yw'r rhiant maeth yn parhau i fod yn addas i weithredu fel rhiant maeth ac a yw aelwyd y rhiant maeth yn parhau i fod yn aelwyd addas,

(b) ceisio ac ystyried safbwyntiau—

(i) y rhiant maeth;

(ii) (yn ddarostyngedig i oedran y plentyn a'i ddealltwriaeth) unrhyw blentyn sydd wedi ei leoli gyda'r rhiant maeth, a

(iii) yn achos darparwr gwasanaethau maethu annibynnol, unrhyw awdurdod lleol sydd wedi lleoli plentyn gyda'r rhiant maeth yn y flwyddyn flaenorol.

(4) Ar ddiwedd yr adolygiad rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu lunio adroddiad ysgrifenedig sy'n nodi—

(a) a yw'r rhiant maeth yn parhau i fod yn addas i weithredu fel rhiant maeth ac a yw aelwyd y rhiant maeth yn parhau i fod yn addas, a

(b) a yw telerau cymeradwyaeth y rhiant maeth yn parhau i fod yn briodol.

(5) Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu, ar adeg yr adolygiad cyntaf o dan y rheoliad hwn, atgyfeirio ei adroddiad i'r panel maethu er mwyn iddo ei ystyried, a chaiff wneud hynny ar adeg unrhyw adolygiad dilynol.

(6) Os yw'r darparwr gwasanaethau maethu yn penderfynu, ar ôl ystyried unrhyw argymhelliad a wneir gan y panel maethu, fod y rhiant maeth ac aelwyd y rhiant maeth yn parhau i fod yn addas a bod telerau cymeradwyaeth y rhiant maeth yn parhau i fod yn briodol, rhaid i'r darparwr roi hysbysiad ysgrifenedig i'r rhiant maeth o'r penderfyniad hwnnw.

(7) Os nad yw'r darparwr gwasanaethau maethu, wrth ystyried unrhyw argymhelliad a wneir gan y panel maethu, wedi ei fodloni mwyach fod y rhiant maeth ac aelwyd y rhiant maeth yn parhau i fod yn addas, neu fod telerau'r gymeradwyaeth yn briodol, rhaid i'r darparwr (yn ddarostyngedig i baragraff (9))—

(a) rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'r rhiant maeth o'r cynnig i derfynu neu, yn ôl y digwydd, ddiwygio telerau cymeradwyaeth y rhiant maeth ("penderfyniad"), ynghyd â'r rhesymau dros y cynnig hwnnw a chopi o unrhyw argymhelliad a wneir gan y panel maethu, a

(b) hysbysu'r rhiant maeth y caiff, o fewn 28 o ddiwrnodau i ddyddiad yr hysbysiad—

(i) cyflwyno unrhyw sylwadau ysgrifenedig y mae'r rhiant maeth yn dymuno eu cyflwyno i'r darparwr gwasanaethau maethu, neu

(ii) gwneud cais i Weinidogion Cymru am adolygiad o'r penderfyniad gan banel adolygu annibynnol.

(8) Nid yw paragraff (7)(b)(ii) yn gymwys i achos pan fo'r darparwr gwasanaethau maethu yn penderfynu nad yw o'r farn mwyach fod person yn addas i weithredu neu i barhau i weithredu, yn ôl y digwydd, fel rhiant maeth o dan reoliad 91(11).

(9) Os, o fewn y cyfnod y cyfeirir ato ym mharagraff (7)(b)—

(a) nad yw'r darparwr gwasanaethau maethu yn cael unrhyw sylwadau, a

DRAFT

(b) nad yw’r rhiant maeth yn gwneud cais i Weinidogion Cymru am adolygiad o’r penderfyniad gan banel adolygu annibynnol,

caiff y darparwr gwasanaethau maethu fwrw ymlaen i wneud ei benderfyniad.

(10) Os yw’r darparwr gwasanaethau maethu yn cael unrhyw sylwadau ysgrifenedig o fewn y cyfnod y cyfeirir ato ym mharagraff (7)(b), rhaid i’r darparwr—

(a) atgyfeirio’r achos i’r panel maethu er mwyn iddo ei ystyried ymhellach, a

(b) gwneud penderfyniad, gan ystyried unrhyw argymhelliad a wneir gan y panel maethu.

(11) Os yw’r rhiant maeth yn gwneud cais, o fewn y cyfnod y cyfeirir ato ym mharagraff (7)(b), i Weinidogion Cymru am adolygiad o’r penderfyniad gan banel adolygu annibynnol, rhaid i’r darparwr gwasanaethau maethu wneud ei benderfyniad gan ystyried unrhyw argymhellion a wneir gan y panel maethu ac argymhelliad y panel adolygu annibynnol.

(12) Cyn gynted ag y bo’n ymarferol ar ôl gwneud y penderfyniad y cyfeirir ato ym mharagraff (9), (10)(b) neu (11), rhaid i’r darparwr gwasanaethau maethu roi hysbysiad ysgrifenedig i’r rhiant maeth sy’n datgan, yn ôl y digwydd—

(a) bod y rhiant maeth ac aelwyd y rhiant maeth yn parhau i fod yn addas, a bod telerau’r gymeradwyaeth yn parhau i fod yn briodol,

(b) bod cymeradwyaeth y rhiant maeth wedi ei therfynu o ddyddiad penodedig, a’r rheswm dros derfynu’r gymeradwyaeth, neu

(c) telerau diwygiedig y gymeradwyaeth a’r rhesymau dros ei diwygio.

(13) Caiff rhiant maeth roi hysbysiad ysgrifenedig i’r darparwr gwasanaethau maethu ar unrhyw adeg sy’n nodi nad yw’n dymuno parhau i weithredu fel rhiant maeth mwyach, ac ar hynny mae cymeradwyaeth y rhiant maeth wedi ei therfynu gydag effaith o 28 o ddiwrnodau i’r dyddiad y mae’r darparwr gwasanaethau maethu yn cael yr hysbysiad.

(14) Rhaid i gopi o unrhyw hysbysiad a roddir o dan y rheoliad hwn gael ei anfon i’r awdurdod lleol ar gyfer unrhyw blentyn sydd wedi ei leoli gyda’r rhiant maeth (oni bai mai’r awdurdod lleol yw’r darparwr gwasanaethau maethu hefyd).

(15) Mewn achos pan fo panel adolygu annibynnol wedi gwneud argymhelliad, rhaid i’r darparwr gwasanaethau maethu anfon copi o’r hysbysiad y cyfeirir ato ym mharagraff (13) at Weinidogion Cymru.

**Gwybodaeth sydd i'w hanfon i'r panel adolygu annibynnol**

**94.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo'r darparwr gwasanaethau maethu yn cael hysbysiad oddi wrth Weinidogion Cymru bod person wedi gwneud cais am adolygiad o benderfyniad gan banel adolygu annibynnol.

(2) Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu, o fewn 10 niwrnod gwaith i gael yr hysbysiad y cyfeirir ato ym mharagraff (1), anfon y dogfennau a'r wybodaeth a bennir ym mharagraff (3) at Weinidogion Cymru.

(3) Mae'r dogfennau a'r wybodaeth a ganlyn wedi eu pennu at ddibenion paragraff (2)—

(a) copi o unrhyw adroddiad a lunnir ar gyfer y panel maethu, ac unrhyw ddogfennau eraill a atgyfeirir i'r panel maethu, at ddibenion rheoliad 91, 92 neu 93 yn ôl y digwydd,

(b) unrhyw wybodaeth berthnasol mewn perthynas â'r person a gafwyd gan y darparwr gwasanaethau maethu ar ôl y dyddiad y lluniwyd yr adroddiad neu yr atgyfeiriwyd y dogfennau i'r panel maethu, ac

(c) copi o'r hysbysiad ac o unrhyw ddogfennau eraill a anfonir yn unol â rheoliad 92(6)(a) neu 93(7)(a).

**Cofnodion achos sy'n ymwneud â rhieni maeth ac eraill**

**95.**—(1) Rhaid i ddarparwr gwasanaethau maethu gynnal cofnod achos ar gyfer pob rhiant maeth sydd wedi ei gymeradwyo gan y darparwr a rhaid iddo gynnwys copïau o'r dogfennau a bennir ym mharagraff (2) a'r wybodaeth a bennir ym mharagraff (3).

(2) Y dogfennau y cyfeirir atynt ym mharagraff (1) yw, yn ôl y digwydd—

(a) yr hysbysiad o gymeradwyaeth a roddir o dan reoliad 92(5)(a),

(b) y cytundeb gofal maeth,

(c) unrhyw adroddiad ar adolygiad o gymeradwyaeth a lunnir o dan reoliad 93(4)(a),

(d) unrhyw hysbysiad a roddir o dan reoliad 93(10),

(e) yr adroddiad a lunnir o dan reoliad 91(5)(c) ac unrhyw adroddiadau eraill a gyflwynir i'r panel maethu, ac

(f) unrhyw argymhellion a wneir gan y panel maethu.

(3) Yr wybodaeth y cyfeirir ati ym mharagraff (1) yw, yn ôl y digwydd—

DRAFT

(a) cofnod o bob lleoliad gyda'r rhiant maeth gan gynnwys enw, oedran a rhyw pob plentyn sydd wedi ei leoli, dyddiad dechrau a therfynu pob lleoliad ac amgylchiadau'r terfyniad,

(b) yr wybodaeth a gaiff y darparwr gwasanaethau maethu mewn perthynas ag asesu a chymeradwyo'r rhiant maeth ac mewn perthynas ag unrhyw adolygiad o'r gymeradwyaeth neu ei therfynu.

(4) Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu lunio cofnod ar gyfer pob person nad yw'n ei gymeradwyo'n rhiant maeth, neu y mae ei gais wedi ei dynnu'n ôl cyn ei gymeradwyo, a rhaid iddo gynnwys, mewn perthynas â'r person—

(a) yr wybodaeth a geir mewn cysylltiad â'r asesiad,

(b) unrhyw adroddiad a gyflwynir i'r panel maethu ac unrhyw argymhelliad a wneir gan y panel maethu, ac

(c) unrhyw hysbysiad a roddir o dan reoliad 92.

(5) Rhaid i ddarparwr gwasanaethau maethu awdurdod lleol hefyd gynnal cofnod achos ar gyfer pob person y mae plentyn wedi ei leoli gydag ef o dan reoliad 26 o Reoliadau 2015 (cymeradwyo dros dro berthynas, cyfaill neu berson arall sydd â chysylltiad â phlentyn) neu o dan reoliad 28 o'r Rheoliadau hynny (cymeradwyo dros dro ddarpar fabwysiadydd penodol fel rhiant maeth) a rhaid iddo gynnwys mewn perthynas â'r person hwnnw—

(a) cofnod mewn perthynas â'r lleoliad, gan gynnwys enw, oedran a rhyw pob plentyn sydd wedi ei leoli, dyddiad dechrau'r lleoliad ac, os yw'r lleoliad wedi ei derfynu, dyddiad ac amgylchiadau'r terfyniad, a

(b) yr wybodaeth a geir mewn perthynas â'r ymholiadau a wneir o dan reoliad 26(2) neu reoliad 28 (fel y bo'n briodol) o Reoliadau 2015.

## Rhestr o rieni maeth

**96.** Rhaid i'r darparwr gwasanaeth maethu gynnal rhestr o rieni maeth a chofnodi ynddi y manylion a ganlyn mewn perthynas â phob rhiant maeth—

(a) enw, cyfeiriad, dyddiad geni a rhyw pob rhiant maeth ac, yn achos gwasanaeth maethu awdurdod lleol, enw, cyfeiriad, dyddiad geni a rhyw pob person y mae wedi lleoli plentyn gydag ef o dan reoliad 26 neu reoliad 28 o Reoliadau 2015,

(b) dyddiad y gymeradwyaeth a dyddiad pob adolygiad o gymeradwyaeth (yn ôl y digwydd), ac

DRAFT

(c) telerau cyfredol y gymeradwyaeth (os oes rhai).

## Cadw cofnodion a'u cyfrinachedd

**97.—**(1) Rhaid cadw'r cofnodion a lunnir mewn perthynas â rhiant maeth o dan reoliad 95(1), ac unrhyw gofnod sy'n ymwneud â'r person hwnnw ar y rhestr a gynhelir o dan reoliad 96(1), am o leiaf 10 mlynedd o'r dyddiad y caiff cymeradwyaeth y person hwnnw ei therfynu.

(2) Rhaid cadw'r cofnodion a lunnir gan awdurdod lleol o dan reoliad 95(5) mewn perthynas â pherson y mae plentyn wedi ei leoli gydag ef o dan reoliad 26 neu reoliad 28 o Reoliadau 2015, ac unrhyw gofnod sy'n ymwneud â pherson o'r fath ar y rhestr a gynhelir o dan reoliad 96, am o leiaf 10 mlynedd o'r dyddiad y caiff y lleoliad ei derfynu.

(3) Rhaid cadw'r cofnodion a lunnir o dan reoliad 95(4) am o leiaf 3 blynedd o'r adeg y caiff y cais i ddod yn rhiant maeth ei wrthod neu ei dynnu'n ôl, yn ôl y digwydd.

(4) Rhaid i unrhyw gofnodion a gynhelir yn unol â rheoliad 95 neu 96 gael eu cadw'n ddiogel ac ni chaniateir iddynt gael eu datgelu i unrhyw berson ac eithrio—

(a) yn unol ag unrhyw ddarpariaeth mewn statud, neu a wneir o dan neu yn rhinwedd statud, yr awdurdodir mynediad i gofnodion o'r fath oddi tani, neu

(b) yn unol ag unrhyw orchymyn llys sy'n awdurdodi mynediad i gofnodion o'r fath.

*Huw Irranca-Davies*
Y Gweinidog Gofal Cymdeithasol a Phlant o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru
Dyddiad

DRAFT

# ATODLEN 1 Rheoliad 8

# Hysbysiadau gan y darparwr gwasanaethau maethu annibynnol

## RHAN 1

### Hysbysiadau i Weinidogion Cymru

**1.** Marwolaeth plentyn sydd wedi ei leoli gyda rhieni maeth.

**2.** Darperir gwybodaeth i'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd o dan unrhyw un neu ragor o adrannau 35, 36, 39, 41 neu 45 o Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006(**1**) mewn cysylltiad ag unigolyn sy'n gweithio i wasanaeth maethu.

**3.** Salwch difrifol neu ddamwain ddifrifol plentyn sydd wedi ei leoli gyda rhieni maeth.

**4.** Unrhyw glefyd heintus yn torri allan yng nghartref rhiant maeth, a hwnnw'n glefyd sydd, ym marn ymarferydd cyffredinol sy'n ymweld â'r cartref, yn ddigon difrifol i hysbysu amdano felly.

**5.** Honiad bod plentyn sydd wedi ei leoli gyda rhieni maeth wedi cyflawni trosedd ddifrifol.

**6.** Bod plentyn sydd wedi ei leoli gyda rhieni maeth yn cymryd rhan mewn puteindra neu amheuaeth ei fod yn cymryd rhan mewn puteindra.

**7.** Digwyddiad difrifol sy'n ymwneud â phlentyn sydd wedi ei leoli gyda rhieni maeth ac a oedd yn golygu bod rhaid galw'r heddlu i gartref y rhieni maeth.

**8.** Dianc gan blentyn sydd wedi ei leoli gyda rhieni maeth.

**9.** Unrhyw gŵyn ddifrifol ynghylch unrhyw riant maeth a gymeradwywyd gan y darparwr gwasanaethau maethu annibynnol.

**10.** Cychwyn a chanlyniad unrhyw ymholiad amddiffyn plant sy'n ymwneud â phlentyn sydd wedi ei leoli gyda rhieni maeth.

**11.** Unrhyw achos o gamfanteisio'n rhywiol ar blentyn neu o amheuaeth o gamfanteisio'n rhywiol ar blentyn.

**12.** Pan fo'r rheolwr cofrestredig neu'r darparwr gwasanaethau maethu annibynnol (os yw'n unigolyn)

(**1**) 2006 p. 47.

DRAFT

neu'r unigolyn cyfrifol (os yw'r darparwr yn sefydliad) wedi ei euogfarnu o unrhyw drosedd, pa un ai yng Nghymru a Lloegr neu mewn man arall, o—

(a) dyddiad a man yr euogfarn,

(b) y drosedd y cafodd ei euogfarnu ohoni, ac

(c) y gosb a osodwyd mewn cysylltiad â'r drosedd.

**13.** Hysbysiad o newidiadau—

(a) os yw person yn peidio â chynnal neu reoli'r gwasanaeth maethu annibynnol,

(b) pan fo'r darparwr gwasanaethau maethu annibynnol yn unigolyn, os yw'r unigolyn yn newid ei enw,

(c) pan fo'r darparwr gwasanaethau maethu annibynnol yn sefydliad—

  (i) os caiff enw neu gyfeiriad y sefydliad ei newid,

  (ii) os yw cyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog tebyg arall yn y sefydliad yn newid,

  (iii) os bydd unrhyw newid o ran pwy yw'r unigolyn cyfrifol,

(d) pan fo'r darparwr gwasanaethau maethu annibynnol yn unigolyn, os caiff ymddiriedolwr mewn methdaliad ei benodi neu os caiff compównd neu drefniant ei wneud â chredydwyr, neu

(e) pan fo'r darparwr gwasanaethau maethu annibynnol yn gwmni, neu mewn partneriaeth, os caiff derbynnydd, rheolwr, datodwr neu ddatodwr dros dro ei benodi mewn cysylltiad â'r darparwr cofrestredig.

**14.** Rhaid i'r darparwr gwasanaethau maethu annibynnol hysbysu Gweinidogion Cymru yn ysgrifenedig ac yn ddi-oed am farwolaeth y rheolwr cofrestredig.

## RHAN 2

### Hysbysiadau i'r awdurdod lleoli

**1.** Marwolaeth plentyn sydd wedi ei leoli gyda rhieni maeth.

**2.** Darperir gwybodaeth i'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd o dan unrhyw un neu ragor o adrannau 35, 36, 39, 41 neu 45 o Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 mewn cysylltiad ag unigolyn sy'n gweithio i wasanaeth maethu annibynnol.

**3.** Salwch difrifol neu ddamwain ddifrifol plentyn sydd wedi ei leoli gyda rhieni maeth.

**4.** Unrhyw glefyd heintus yn torri allan yng nghartref rhiant maeth, a hwnnw’n glefyd sydd, ym marn ymarferydd cyffredinol sy’n ymweld â’r cartref, yn ddigon difrifol i hysbysu amdano felly.

**5.** Honiad bod plentyn sydd wedi ei leoli gyda rhieni maeth wedi cyflawni trosedd ddifrifol.

**6.** Bod plentyn sydd wedi ei leoli gyda rhieni maeth yn cymryd rhan mewn puteindra neu amheuaeth ei fod yn cymryd rhan mewn puteindra.

**7.** Unrhyw ddigwyddiad difrifol sy’n ymwneud â phlentyn sydd wedi ei leoli gyda rhieni maeth ac a oedd yn golygu ei bod yn ofynnol galw’r heddlu i gartref y rhieni maeth.

**8.** Dianc gan blentyn sydd wedi ei leoli gyda rhieni maeth.

**9.** Unrhyw gŵyn ddifrifol neu honiad difrifol ynghylch unrhyw riant maeth a gymeradwywyd gan y darparwr gwasanaethau maethu.

**10.** Cychwyn a chanlyniad unrhyw ymholiad amddiffyn plant sy’n ymwneud â phlentyn sydd wedi ei leoli gyda rhieni maeth.

**11.** Unrhyw achos o gamfanteisio’n rhywiol ar blentyn neu o amheuaeth o gamfanteisio’n rhywiol ar blentyn.

## RHAN 3

### Hysbysiadau i’r awdurdod lleol y mae’r cartref maeth yn ei ardal

**1.** Marwolaeth plentyn sydd wedi ei leoli gyda rhieni maeth.

**2.** Bod plentyn sydd wedi ei leoli gyda rhieni maeth yn cymryd rhan mewn puteindra neu amheuaeth ei fod yn cymryd rhan mewn puteindra.

**3.** Unrhyw achos o gamfanteisio’n rhywiol ar blentyn neu o amheuaeth o gamfanteisio’n rhywiol ar blentyn.

**4.** Cychwyn a chanlyniad unrhyw ymholiad amddiffyn plant sy’n ymwneud â phlentyn sydd wedi ei leoli gyda rhieni maeth.

**5.** Unrhyw ddigwyddiad difrifol sy’n ymwneud â phlentyn sydd wedi ei leoli gyda rhieni maeth ac a oedd yn golygu ei bod yn ofynnol galw’r heddlu i gartref y rhieni maeth.

DRAFT

# RHAN 4

## Hysbysiadau i'r bwrdd iechyd lleol y mae'r plentyn wedi ei leoli yn ei ardal

**1.** Marwolaeth plentyn sydd wedi ei leoli gyda rhieni maeth.

**2.** Unrhyw glefyd heintus yn torri allan yng nghartref rhiant maeth, a hwnnw'n glefyd sydd, ym marn ymarferydd cyffredinol sy'n ymweld â'r cartref, yn ddigon difrifol i hysbysu amdano felly.

# RHAN 5

## Hysbysiadau i'r heddlu

**1.** Honiad bod plentyn sydd wedi ei leoli gyda rhieni maeth wedi cyflawni trosedd ddifrifol.

**2.** Bod plentyn sydd wedi ei leoli gyda rhieni maeth yn cymryd rhan mewn puteindra neu amheuaeth ei fod yn cymryd rhan mewn puteindra.

**3.** Unrhyw achos o gamfanteisio'n rhywiol ar blentyn neu o amheuaeth o gamfanteisio'n rhywiol ar blentyn.

# ATODLEN 2 Rheoliad 19

**Gwybodaeth sydd i'w chynnwys mewn datganiad o ddiben gan ddarparwr gwasanaethau maethu awdurdod lleol**

Rhaid i'r datganiad o ddiben a ddarperir gan ddarparwr gwasanaethau maethu awdurdod lleol gynnwys yr wybodaeth a ganlyn—

(a) enw a phrif gyfeiriad yr awdurdod lleol,

(b) enw'r rheolwr,

(c) datganiad o ystod anghenion y plant y mae'r gwasanaeth i'w ddarparu ar eu cyfer,

(d) sut y mae'r gwasanaeth i'w ddarparu i ddiwallu anghenion plant ac i'w cefnogi i gyflawni eu canlyniadau personol,

(e) manylion strwythur rheoli a staffio'r gwasanaeth,

(f) manylion y cyfleusterau a'r cyfarpar a fydd ar gael i rieni maeth i'w cynorthwyo i ddiwallu anghenion plant ac i'w cefnogi i gyflawni eu canlyniadau personol,

(g) manylion y trefniadau a wnaed i gefnogi anghenion diwylliannol, ieithyddol a chrefyddol plant,

(h) manylion y trefniadau a wnaed i ddarparu cymorth i blant mewn perthynas â'u

DRAFT

cyfeiriadedd rhywiol a'u hunaniaeth o ran rhywedd,

(i) manylion y trefniadau a wnaed ar gyfer ymgynghori â phlant ynghylch gweithredu gwasanaeth maethu'r awdurdod lleol,

(j) manylion ynghylch sut y bydd yr awdurdod lleol yn diwallu anghenion iaith a chyfathrebu plant, gan gynnwys drwy gyfrwng y Gymraeg.

## ATODLEN 3 Rheoliad 34

### Y cofnodion sydd i'w cadw gan ddarparwyr gwasanaethau maethu

**1.** Cofnod sy'n dangos mewn cysylltiad â phob plentyn sydd wedi ei leoli gyda rhieni maeth—

(a) dyddiad lleoli'r plentyn;

(b) cynllun gofal a chymorth y plentyn;

(c) y cytundeb gofal maeth mewn cysylltiad â'r plentyn;

(d) enw a chyfeiriad y rhiant maeth;

(e) y dyddiad y daeth lleoliad y plentyn yno i ben;

(f) cyfeiriad y plentyn cyn y lleoliad;

(g) cyfeiriad y plentyn wrth iddo ymadael â'r lleoliad;

(h) awdurdod lleol y plentyn (os nad y darparwr gwasanaethau maethu ydyw);

(i) y ddarpariaeth statudol y mae neu yr oedd gofal maeth yn cael ei ddarparu i'r plentyn odani.

**2.** Cofnod o'r holl bersonau sy'n gweithio i'r darparwr gwasanaethau maethu, a hwnnw'n gofnod y mae rhaid iddo gynnwys y materion a ganlyn mewn cysylltiad â pherson sy'n dod o fewn rheoliad 54(1)—

(a) enw llawn a chyfeiriad cartref;

(b) dyddiad geni;

(c) rhyw;

(d) cymwysterau sy'n berthnasol i blant, a phrofiad o wneud gwaith sy'n ymwneud â phlant;

(e) copi o dystysgrif geni a phasbort (os oes ganddo un) y person;

(f) copi o bob geirda a geir mewn cysylltiad â'r person;

(g) pa un a yw'r person wedi ei gyflogi gan y darparwr gwasanaethau maethu o dan gontract gwasanaeth, contract ar gyfer gwasanaethau, neu heblaw o dan gontract, neu

DRAFT

a yw wedi ei gyflogi gan rywun ac eithrio'r darparwr gwasanaethau maethu;

(h) pa un a yw'r person yn gweithio'n llawnamser neu'n rhan-amser, ac, os yw'n rhan-amser, nifer yr oriau sy'n cael eu gweithio ar gyfartaledd bob wythnos;

(i) y dyddiadau y mae'r person yn dechrau cael ei gyflogi felly ac yn peidio â chael ei gyflogi felly;

(j) y swydd sydd gan y person yn y gwasanaeth;

(k) cofnodion o gamau disgyblu ac unrhyw gofnodion eraill mewn perthynas â chyflogaeth y person; ac

(l) cofnod o ddyddiad tystysgrif GDG aac a gymerwyd unrhyw gamau gweithredu o ganlyniad i gynnwys y dystysgrif.

**3.** Cofnod o bob damwain sy'n digwydd i blant tra bônt wedi eu lleoli gyda rhieni maeth.

**4.** Dyddiad ac amgylchiadau unrhyw atgyfeiriadau diogelu, a'r canlyniad.

**5.** Dyddiad ac amgylchiadau unrhyw fesurau rheoli neu atal a ddefnyddir gan riant maeth ar blentyn.

# ATODLEN 4

Rheoliad 54

## RHAN 1

### Gwybodaeth a dogfennau sydd i fod ar gael mewn cysylltiad â phersonau sy'n gweithio mewn gwasanaethau maethu

**1.** Prawf o bwy yw'r person gan gynnwys ffotograff diweddar.

**2.** Pan fo'n ofynnol at ddibenion cwestiwn sydd wedi ei esemptio yn unol ag adran 113A(2)(b) o Ddeddf yr Heddlu 1997(**1**), copi o dystysgrif cofnod troseddol ddilys(**2**) a ddyroddir o dan adran 113A o'r Ddeddf honno ynghyd, ar ôl y diwrnod penodedig a phan fo'n gymwys, â'r wybodaeth a grybwyllir yn adran 30A(3) o Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 (darparu gwybodaeth am waharddiadau ar gais).

**3.** Pan fo'n ofynnol at ddibenion cwestiwn sydd wedi ei esemptio ac a ofynnir at ddiben rhagnodedig o dan adran 113B(2)(b) o Ddeddf yr Heddlu 1997, copi o dystysgrif cofnod troseddol manwl ddilys(**3**) a

---

(**1**) 1997 p. 50.
(**2**) I gael ystyr "dilys", gweler Rhan 2 o'r Atodlen hon.
(**3**) I gael ystyr "dilys", gweler Rhan 2 o'r Atodlen hon.

ddyroddir o dan adran 113B o'r Ddeddf honno ynghyd, pan fo'n gymwys, â gwybodaeth addasrwydd sy'n ymwneud â phlant (o fewn ystyr "suitability information relating to children" yn adran 113BA(2) o'r Ddeddf honno) neu wybodaeth addasrwydd sy'n ymwneud ag oedolion hyglwyf (o fewn ystyr "suitability information relating to vulnerable adults" yn adran 113BB(2) o'r Ddeddf honno).

**4.** Dau eirda ysgrifenedig, gan gynnwys geirda gan y cyflogwr diwethaf, os oes un.

**5.** Pan fo person wedi gweithio'n flaenorol mewn swydd yr oedd ei dyletswyddau yn cynnwys gweithio gyda phlant neu oedolion hyglwyf, cadarnhad, i'r graddau y bo'n rhesymol ymarferol, o'r rheswm pam y daeth y gyflogaeth neu'r swydd i ben.

**6.** Tystiolaeth ddogfennol o unrhyw gymhwyster perthnasol.

**7.** Pan fo'n berthnasol, tystiolaeth ddogfennol o gofrestriad â Gofal Cymdeithasol Cymru.

**8.** Hanes cyflogaeth llawn, ynghyd ag esboniad ysgrifenedig boddhaol o unrhyw fylchau mewn cyflogaeth.

**9.** Manylion cofrestriad ag unrhyw gorff proffesiynol neu aelodaeth o gorff o'r fath.

## RHAN 2

### Dehongli Rhan 1

**10.** At ddibenion paragraffau 2 a 3 o Ran 1 o'r Atodlen hon—

(a) os nad yw'r person y mae'r dystysgrif yn ymwneud ag ef wedi ei gofrestru â gwasanaeth diweddaru'r GDG, nid yw tystysgrif ond yn ddilys—

(i) os y'i dyroddwyd mewn ymateb i gais gan y darparwr gwasanaethau maethu yn unol â rheoliad 54(3) neu (6), a

(ii) os nad oes mwy na thair blynedd wedi mynd heibio ers i'r dystysgrif gael ei dyroddi;

(b) os yw'r person y mae'r dystysgrif yn ymwneud ag ef wedi ei gofrestru â gwasanaeth diweddaru'r GDG, mae'r dystysgrif yn ddilys ni waeth pa bryd y'i dyroddwyd.

DRAFT

## ATODLEN 5 Rheoliad 77

### Hysbysiadau gan yr unigolyn cyfrifol

**1.** Penodi rheolwr (gweler rheoliad 65(1)).

**2.** Absenoldeb disgwyliedig y rheolwr a benodir, am 28 o ddiwrnodau neu ragor, 7 niwrnod cyn i’r absenoldeb ddechrau.

**3.** Absenoldeb annisgwyl y rheolwr a benodir, heb fod yn hwyrach na 7 niwrnod ar ôl i’r absenoldeb ddechrau.

**4.** Absenoldeb annisgwyl y rheolwr a benodir, am 28 o ddiwrnodau neu ragor, pan na fo hysbysiad ymlaen llaw wedi ei roi, yn union wrth i’r 28 o ddiwrnodau yn dilyn dechrau’r absenoldeb ddod i ben.

**5.** Bod y rheolwr a benodir yn dychwelyd o fod yn absennol.

**6.** Trefniadau interim pan fo’r rheolwr yn absennol am fwy nag 28 o ddiwrnodau.

**7.** Bod rhywun ac eithrio’r rheolwr a benodir yn bwriadu rheoli neu yn rheoli’r gwasanaeth.

**8.** Bod y rheolwr a benodir yn peidio, neu’n bwriadu peidio, â rheoli’r gwasanaeth.

DRAFT

# ATODLEN 6 Rheoliad 91

## Gwybodaeth am ddarpar rieni maeth ac aelodau eraill o'u haelwyd a'u teulu

## RHAN 1

**1.** Enw llawn, cyfeiriad a dyddiad geni.

**2.** Manylion iechyd (wedi eu hategu gan adroddiad meddygol).

**3.** Manylion unrhyw aelodau eraill o'r aelwyd sy'n oedolion.

**4.** Manylion y plant yn y teulu, pa un a ydynt yn aelodau o'r aelwyd ai peidio, ac unrhyw blant eraill yn yr aelwyd.

**5.** Manylion eu llety.

**6.** Canlyniad unrhyw gais a wnaed ganddynt neu gan unrhyw aelod arall o'u haelwyd i faethu neu fabwysiadu plant, neu i gofrestru'n warchodwr plant neu'n ddarparwr gofal dydd o dan Ran 2 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010(**1**), gan gynnwys manylion unrhyw gymeradwyaeth flaenorol sy'n ymwneud â hwy neu ag unrhyw aelod arall o'r aelwyd neu fanylion penderfyniad blaenorol i wrthod cymeradwyaeth o'r fath.

**7.** Os yw'r person, yn y deuddeng mis blaenorol, wedi bod yn rhiant maeth a gymeradwywyd gan ddarparwr gwasanaethau maethu arall, enw a chyfeiriad y darparwr gwasanaethau maethu hwnnw.

**8.** Enwau a chyfeiriadau dau berson a fydd yn darparu geirda personol ar gyfer y person.

**9.** Mewn perthynas â'r person ac unrhyw aelod arall o aelwyd y person sy'n 18 oed neu drosodd, tystysgrif cofnod troseddol manwl a ddyroddir o dan adran 113B o Ddeddf yr Heddlu 1997(**2**) sy'n cynnwys gwybodaeth addasrwydd sy'n ymwneud â phlant (o fewn ystyr "suitability information relating to children" yn adran 113BA(2) o'r Ddeddf honno).

**10.** Manylion priodas, partneriaeth sifil neu berthynas debyg gyfredol ac unrhyw briodas, partneriaeth sifil neu berthynas debyg flaenorol.

(**1**) 2010 mccc 1.
(**2**) 1997 p. 50.

DRAFT

## RHAN 2

**11.** Manylion personoliaeth.

**12.** Argyhoeddiad crefyddol, a gallu i ofalu am blentyn o unrhyw argyhoeddiad crefyddol penodol.

**13.** Tarddiad hiliol, cefndir diwylliannol ac ieithyddol a gallu i ofalu am blentyn o unrhyw darddiad hiliol neu gefndir diwylliannol neu ieithyddol penodol.

**14.** Gallu i ddarparu cymorth i blentyn mewn perthynas â'i gyfeiriadedd rhywiol a'i hunaniaeth o ran rhywedd.

**15.** Cyflogaeth neu alwedigaeth yn y gorffennol a'r presennol, safon byw, gweithgareddau hamdden a diddordebau.

**16.** Profiad blaenorol (os o gwbl) o ofalu am eu plant eu hunain a phlant eraill.

**17.** Sgiliau, cymhwysedd a photensial sy'n berthnasol i'w gallu i ofalu'n effeithiol am blentyn sydd wedi ei leoli gyda hwy.

DRAFT

## ATODLEN 7 Rheoliad 91

## Troseddau a Bennir at Ddibenion Rheoliad 91

### RHAN 1

### Troseddau yng Nghymru a Lloegr

**1.** Unrhyw un o'r troseddau a ganlyn yn erbyn oedolyn—

(a) trosedd treisio o dan adran 1 o Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003(**1**),

(b) trosedd ymosod drwy dreiddio o dan adran 2 o'r Ddeddf honno,

(c) trosedd achosi i berson gymryd rhan mewn gweithgaredd rhywiol heb gydsyniad o dan adran 4 o'r Ddeddf honno, os oedd y gweithgaredd yn dod o fewn is-adran (4) o'r adran honno,

(d) trosedd gweithgaredd rhywiol gyda pherson ag anhwylder meddwl sy'n llesteirio dewis o dan adran 30 o'r Ddeddf honno, os oedd y cyffwrdd yn dod o fewn is-adran (3) o'r adran honno,

(e) trosedd achosi neu ysgogi person ag anhwylder meddwl sy'n llesteirio dewis i gymryd rhan mewn gweithgaredd rhywiol o dan adran 31 o'r Ddeddf honno, os oedd y gweithgaredd a achoswyd neu a ysgogwyd yn dod o fewn is-adran (3) o'r adran honno,

(f) trosedd cymell, bygwth neu ddichell i gaffael gweithgaredd rhywiol gyda pherson ag anhwylder meddwl o dan adran 34 o'r Ddeddf honno, os oedd y cyffwrdd o dan sylw yn dod o fewn is-adran (2) o'r adran honno, ac

(g) trosedd achosi i berson ag anhwylder meddwl gymryd rhan neu gytuno i gymryd rhan mewn gweithgaredd rhywiol drwy gymell, bygwth neu ddichell o dan adran 35 o'r Ddeddf honno, os oedd y gweithgaredd yn dod o fewn is-adran (2) o'r adran honno.

**Troseddau yn yr Alban**

**2.** Trosedd o dan adran 1 (treisio) a 18 (treisio plentyn ifanc) o Ddeddf Troseddau Rhywiol (Yr Alban) 2009(**2**).

(**1**) 2003 p. 42.
(**2**) 2009 dsa 9.

**3.** Trosedd a bennir yn Atodlen 1 i Ddeddf Gweithdrefn Droseddol (Yr Alban) 1995(**1**), ac eithrio mewn achos pan oedd y troseddwr o dan 20 oed ar adeg cyflawni'r drosedd.

**4.** Trosedd plagiwm (lladrata plentyn o dan oedran aeddfedrwydd).

**5.** Trosedd o dan adran 52 neu 52A o Ddeddf Llywodraeth Ddinesig (Yr Alban) 1982(**2**) (lluniau anweddus o blant).

**6.** Trosedd o dan adran 3 o Ddeddf Troseddau Rhywiol (Diwygio) 2000(**3**) (camfanteisio ar ymddiriedaeth).

Troseddau yng Ngogledd Iwerddon

**7.** Trosedd o dan Erthygl 5 (treisio) ac Erthygl 12 (treisio plentyn o dan 13 oed) o Orchymyn Troseddau Rhywiol (Gogledd Iwerddon) 2008(**4**).

**8.** Trosedd a bennir yn Atodlen 1 i Ddeddf Plant a Phobl Ifanc (Gogledd Iwerddon) 1968(**5**), ac eithrio yn yr achos pan oedd y troseddwr o dan 20 oed ar adeg cyflawni'r drosedd.

**9.** Trosedd o dan Erthygl 3 o Orchymyn Amddiffyn Plant (Gogledd Iwerddon) 1978(**6**) (lluniau anweddus).

**10.** Trosedd yn groes i Erthygl 15 o Orchymyn Cyfiawnder Troseddol (Tystiolaeth, etc) (Gogledd

(**1**) 1995 p. 46. Diwygiwyd Atodlen 1 gan baragraff 2(8)(a) a (b) o Atodlen 5 i Ddeddf Troseddau Rhywiol (Yr Alban) 2009 (dsa 9), adrannau 7(1) ac 8(2) o Ddeddf Gwahardd Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod (Yr Alban) 2005 (dsa 8), paragraff 2 o Atodlen 1 i Ddeddf Amddiffyn Plant ac Atal Troseddau Rhywiol (Yr Alban) 2005 (dsa 9) ("Deddf 2005") a chan adran 41(2) o Ddeddf Trwyddedu Cyfiawnder Troseddol (Yr Alban) 2010 (dsa 13).

(**2**) 1982 p. 45. Diwygiwyd adran 52 gan adran 84(6) o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994 (p. 33) ("Deddf 1994") a pharagraff 17 o Atodlen 9 iddi, paragraff 44(3) o Atodlen 4 i Ddeddf Gweithdrefn Droseddol (Darpariaethau Canlyniadol) (Yr Alban) 1995 (p. 40) a pharagraff 89 o Atodlen 15 i Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1988 (p. 33) ("Deddf 1988"). Mewnosodwyd adran 52A gan adran 161 o Ddeddf 1988 ac fe'i diwygiwyd gan adran 84(7) o Ddeddf 1994.

(**3**) 2000 p. 44. Diwygiwyd adran 3 gan baragraff 62 o Atodlen 28 i Ddeddf Partneriaeth Sifil 2004 (p. 33) ac fe'i diddymwyd gan Atodlen 6 i Ddeddf Troseddau Rhywiol (Yr Alban) 2009 (nad yw mewn grym eto).

(**4**) O.S. 2008/1769 ("Gorchymyn 2008").

(**5**)1968 p. 34 (G.I.). Diwygiwyd Atodlen 1 gan baragraff 7 o Atodlen 10 i Ddeddf Trais Domestig, Troseddu a Dioddefwyr 2004 (p. 28), Erthygl 7 o Orchymyn Herwgydio Plant (Gogledd Iwerddon) 1985 (G.I. 17), paragraff 54(b) o Atodlen 9 i Orchymyn Plant (Gogledd Iwerddon) 1995 (G.I. 17), paragraff 6(a), (b) ac (c) o Atodlen 1 i Orchymyn Cyfiawnder Troseddol (Gogledd Iwerddon) 2003 (G.I. 13), paragraff 18(3) o Atodlen 6 i Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003 (p. 42), paragraff 12(4) o Atodlen 1 i Orchymyn 2008 a pharagraff 57 o Atodlen 21 i Ddeddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009 (p. 25).

(**6**) O.S. 1978/1047 (G.I. 17). Diwygiwyd Erthygl 3 gan adran 84 o Ddeddf 1994 ac Erthygl 42(4) o Orchymyn 2008.

DRAFT

Iwerddon) 1988(1) (meddu ar ffotograffau anweddus o blant).

## RHAN 2

**11.**—(1) Trosedd o dan unrhyw un neu ragor o'r adrannau a ganlyn o Ddeddf Troseddau Rhywiol 1956(2)—

(a) adran 1 (treisio),

(b) adran 5 (cyfathrach â merch o dan 13 oed),

(c) yn ddarostyngedig i baragraff 4, adran 6 (cyfathrach â merch o dan 16 oed),

(d) adran 19 neu 20 (herwgydio merch o dan 18 neu 16 oed),

(e) adran 25 neu 26 (caniatáu i ferch o dan 13 oed, neu rhwng 13 ac 16 oed, ddefnyddio mangre i gael cyfathrach), ac

(f) adran 28 (achosi neu annog puteinio merch o dan 16 oed, cyfathrach â hi neu ymosodiad anweddus arni).

(2) Trosedd o dan adran 1 o Ddeddf Anwedduster gyda Phlant 1960(3) (ymddygiad anweddus tuag at blentyn ifanc).

(3) Trosedd o dan adran 54 o Ddeddf Cyfraith Trosedd 1977(4) (ysgogi merch o dan 16 oed i gyflawni llosgach), er gwaethaf bod y ddarpariaeth wedi ei diddymu.

(4) Trosedd o dan adran 3 o Ddeddf Troseddau Rhywiol (Diwygio) 2000(5) (camfanteisio ar ymddiriedaeth) er gwaethaf bod y ddarpariaeth wedi ei diddymu.

DRAFT

**12.** Daw person o fewn y paragraff hwn os yw wedi ei euogfarnu o unrhyw un neu ragor o'r troseddau a ganlyn yn erbyn plentyn a gyflawnwyd pan oedd yn 18 oed neu drosodd neu os yw wedi cael rhybuddiad gan gwnstabl mewn cysylltiad ag unrhyw drosedd o'r fath—

(a) trosedd o dan adran 2 neu 3 o Ddeddf Troseddau Rhywiol 1956 (caffael menyw drwy fygwth neu haeru anwir),

(b) trosedd o dan adran 4 o'r Ddeddf honno (rhoi cyffuriau i gael neu hwyluso cyfathrach),

---

(1) O.S. 1988/1847 (G.I. 17). Diwygiwyd Erthygl 15 gan adran 41(4) o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Gwasanaethau Llysoedd 2000 (p. 43), adran 84(11) o Ddeddf 1994, paragraff 25 o Atodlen 26 i Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnfudo 2008 ac Erthygl 42(7) o Orchymyn 2008.
(2) 1956 p. 69.
(3) 1960 p. 33.
(4) 1977 p. 45.
(5) 2000 p. 44.

(c) trosedd o dan adran 14 neu 15 o’r Ddeddf honno (ymosod anweddus),

(d) trosedd o dan adran 16 o’r Ddeddf honno (ymosod gan fwriadu cyflawni sodomiaeth),

(e) trosedd o dan adran 17 o’r Ddeddf honno (herwgydio menyw drwy rym neu oherwydd ei heiddo), ac

(f) trosedd o dan adran 24 o’r Ddeddf honno (cadw menyw mewn puteindy neu mewn mangre arall).

**13.** Daw person o fewn y paragraff hwn os yw wedi ei euogfarnu o unrhyw un neu ragor o’r troseddau a ganlyn a gyflawnwyd pan oedd yn 18 oed neu drosodd neu os yw wedi cael rhybuddiad gan gwnstabl mewn cysylltiad ag unrhyw drosedd o’r fath—

(a) trosedd o dan adran 7 o Ddeddf Troseddau Rhywiol 1956 (cyfathrach â pherson diffygiol) drwy gael cyfathrach rywiol â phlentyn,

(b) trosedd o dan adran 9 o’r Ddeddf honno (caffael person diffygiol) drwy gaffael plentyn i gael cyfathrach rywiol,

(c) trosedd o dan adran 10 o’r Ddeddf honno (llosgach gan ddyn) drwy gael cyfathrach rywiol â phlentyn,

(d) trosedd o dan adran 11 o’r Ddeddf honno (llosgach gan fenyw) drwy ganiatáu i blentyn gael cyfathrach rywiol â hi,

(e) yn ddarostyngedig i baragraff 4, trosedd o dan adran 12 o’r Ddeddf honno drwy gyflawni sodomiaeth â phlentyn o dan 16 oed,

(f) yn ddarostyngedig i baragraff 4, trosedd o dan adran 13 o’r Ddeddf honno drwy gyflawni gweithred o anwedduster difrifol â phlentyn,

(g) trosedd o dan adran 21 o’r Ddeddf honno (herwgydio person diffygiol oddi wrth riant neu warcheidwad) drwy gymryd plentyn o feddiant ei riant neu ei warcheidwad,

(h) trosedd o dan adran 22 o’r Ddeddf honno (achosi puteinio menywod) mewn perthynas â phlentyn,

(i) trosedd o dan adran 23 o’r Ddeddf honno (caffael merch o dan 21 oed) drwy gaffael plentyn i gael cyfathrach rywiol â thrydydd person,

(j) trosedd o dan adran 27 o’r Ddeddf honno (caniatáu i berson diffygiol ddefnyddio mangre ar gyfer cyfathrach) drwy gymell neu ganiatáu i blentyn droi at fangre neu fod mewn mangre at ddiben cael cyfathrach rywiol,

DRAFT

(k) trosedd o dan adran 29 o’r Ddeddf honno (achosi neu annog puteinio person diffygiol) drwy achosi neu annog puteinio plentyn,

(l) trosedd o dan adran 30 o’r Ddeddf honno (dyn yn byw ar enillion puteindra) mewn achos pan fo’r butain yn blentyn,

(m) trosedd o dan adran 31 o’r Ddeddf honno (menyw yn arfer rheolaeth dros butain) mewn achos pan fo’r butain yn blentyn,

(n) trosedd o dan adran 128 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1959(**1**) (cyfathrach rywiol â chleifion), er gwaethaf bod y ddarpariaeth wedi ei diddymu, drwy gael cyfathrach rywiol â phlentyn,

(o) trosedd o dan adran 4 o Ddeddf Troseddau Rhywiol 1967(**2**) (caffael eraill i gyflawni gweithredoedd cyfunrhywiol) (er gwaethaf bod y ddarpariaeth wedi ei diddymu) drwy—

(i) caffael plentyn i gyflawni gweithred o sodomiaeth ag unrhyw berson, neu

(ii) caffael unrhyw berson i gyflawni gweithred o sodomiaeth â phlentyn,

(p) trosedd o dan adran 5 o’r Ddeddf honno (byw ar enillion puteindra gwryw) drwy fyw yn gyfan gwbl neu’n rhannol ar enillion puteindra plentyn, a

(q) trosedd o dan adran 9(1)(a) o Ddeddf Dwyn 1968(**3**) (bwrgleriaeth), drwy fynd i adeilad neu ran o adeilad gan fwriadu treisio plentyn.

**14.** Nid yw paragraffau 1(c) a 3(e) ac (f) yn cynnwys troseddau mewn achos pan oedd y troseddwr o dan 20 oed ar adeg cyflawni’r drosedd.

(**1**) 1959 p. 72.
(**2**) 1967 p. 60.
(**3**) 1968 p. 60.

## ATODLEN 8 Rheoliad 25

# Materion a Rhwymedigaethau mewn Cytundebau Gofal Maeth

**1.** Materion i'w cofnodi

(a) telerau cymeradwyaeth y rhiant maeth,

(b) y cymorth a'r hyfforddiant sydd i'w rhoi i'r rhiant maeth,

(c) y weithdrefn ar gyfer adolygu cymeradwyaeth rhiant maeth,

(d) y weithdrefn mewn cysylltiad â lleoli plant,

(e) y trefniadau ar gyfer bodloni unrhyw atebolrwyddau cyfreithiol y rhiant maeth sy'n codi oherwydd lleoliad,

(f) y weithdrefn sydd ar gael i rieni maeth ar gyfer cyflwyno cwynion a sylwadau.

**2.** Rhwymedigaethau'r rhiant maeth

(a) gofalu am unrhyw blentyn sydd wedi ei leoli gydag ef fel pe bai'r plentyn yn aelod o deulu'r rhiant maeth a hybu lles y plentyn hwnnw gan roi sylw i'r cynlluniau hirdymor a byrdymor ar gyfer y plentyn,

(b) rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'r darparwr gwasanaethau maethu yn ddi-oed, gyda manylion llawn, am—

(i) unrhyw fwriad i newid cyfeiriad y rhiant maeth,

(ii) unrhyw newid yn y personau sy'n ffurfio'r aelwyd,

(iii) unrhyw newid arall yn amgylchiadau personol y rhiant maeth ac unrhyw ddigwyddiad arall sy'n effeithio naill ai ar ei allu i ofalu am unrhyw blentyn sydd wedi ei leoli neu ar addasrwydd yr aelwyd, a

(iv) unrhyw gais i fabwysiadu plant, neu i gofrestru ar gyfer gwarchod plant neu ofal dydd o dan Ran 2 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010(**1**),

(c) peidio â chosbi'n gorfforol unrhyw blentyn sydd wedi ei leoli gyda'r rhiant maeth,

(d) sicrhau bod unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â phlentyn sydd wedi ei leoli gyda'r rhiant maeth, â theulu'r plentyn neu ag

(**1**) 2010 mccc 1.

unrhyw berson arall, ac sydd wedi ei rhoi iddo yn gyfrinachol mewn cysylltiad â lleoliad, yn cael ei chadw'n gyfrinachol ac nad yw'n cael ei datgelu i unrhyw berson heb gydsyniad y darparwr gwasanaethau maethu,

(e) darparu gofal a chymorth i blentyn sydd wedi ei leoli gyda'r rhiant maeth yn unol â chynllun gofal a chymorth y plentyn ac mewn ffordd sy'n cynnal, yn amddiffyn ac yn hybu diogelwch a llesiant y plentyn,

(f) cynnal perthynas bersonol a phroffesiynol dda â phlentyn sydd wedi ei leoli gyda'r rhiant maeth,

(g) peidio ag amddifadu unrhyw blentyn sydd wedi ei leoli gyda'r rhiant maeth o ryddid heb awdurdod cyfreithlon,

(h) hybu cyswllt rhwng plentyn sydd wedi ei leoli gyda rhiant maeth a rhieni, perthnasau a ffrindiau'r plentyn, yn unol â chynllun gofal a chymorth y plentyn ac unrhyw orchymyn llys sy'n ymwneud â chyswllt,

(i) cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau'r darparwr gwasanaethau maethu a ddyroddir o dan y Rheoliadau hyn,

(j) hybu iechyd a datblygiad plant sydd wedi eu lleoli gyda'r rhiant maeth,

(k) sicrhau bod y mangreoedd, y cyfleusterau a'r cyfarpar a ddefnyddir gan rieni maeth—

 (i) yn addas ac yn ddiogel i'r diben y bwriedir iddynt gael eu defnyddio ato,

 (ii) yn cael eu defnyddio mewn ffordd ddiogel,

 (iii) yn cael eu cynnal a'u cadw'n briodol, ac

 (iv) yn cael eu cadw'n lân yn unol â safon sy'n briodol i'r diben y maent yn cael eu defnyddio ato,

(l) cydweithredu fel y bo'n rhesymol ofynnol â Gweinidogion Cymru ac yn benodol caniatáu i berson sydd wedi ei awdurdodi gan Weinidogion Cymru gyf-weld â'r rhiant maeth ac ymweld â chartref y rhiant maeth ar unrhyw adeg resymol,

(m) hysbysu'r darparwr gwasanaethau maethu yn rheolaidd am gynnydd y plentyn a'i hysbysu cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol am unrhyw ddigwyddiadau arwyddocaol sy'n effeithio ar y plentyn.

DRAFT